ECO'R WYDDFA

RHIF 358 MEDI 2008 PRIS 40c

Cyfarfod Blynyddol caredigion yr Eco Nos Fercher, 17 Medi Sefydliad Coffa Llanrug am 7.30 o'r gloch

DYDDIADUR TRI BEICIWR

Bedwyr, Dylan Edwin a Keith

Sul, 10 Awst. O Gwm-y-Glo a Llanrug i Gaerdydd
Wedi'r ymarfer caled ers wythnosau bellach, wele fe ddaeth yr awr fawr!

Yn fuan bore Sul, llwythwyd ein beiciau a'n bagiau trymion i'r bws mini a chyda Bob, ewythr i Keith yn gyrru, i ffwrdd â ni am y Ddinas Fawr. Bu'r daith i lawr yr A470 yn rhwydd, ac am 2.00 o'r gloch roedd croeso twymgalon yn ein disgwyl gan Nicky Steiner, Rheolwraig Gwesty'r Royal, Stryd Santes Fair, Caerdydd. Parciwyd ein beiciau yn ddiogel yn seler y gwesty a gyda'r nos cawsom bryd blasus di-dâl yn y Mochyn Du.

Gwely cynnar amdani ac felly yn ôl i'r gwesty moethus i drio cysgu.

Llun, 11 Awst. O Gaerdydd i Aberhonddu.
Cododd y tri ohonom yn blygeiniol yn llawn cyffro a chael brecwast gwerth chweil i'n cynnal ar yr antur fawr. Roedd carped coch wedi'i daenu wrth ddrws y gwesty a theimlem ein bod yn y Gemau Olympaidd. Diolch i Sioned Mair, Llanrug, a Bethan, cariad Joni – a'i chi – am ddod i ddymuno'n dda i ni.

Roeddem yn ymfalchïo mai un arall o Fro'r Eco oedd yn ein cychwyn, sef Dafydd Du. Diolch, Dafydd, am y geiriau caredig ac am roi cychwyn gobeithiol i ni.

Rownd y tro gyda'i feicroffon roedd Jonsi a bu Dylan yn egluro pwrpas y daith iddo ac yn talu diolchiadau i lu o ffrindiau.

Ar y trac beicio â ni a dyma ddechrau gofidiau! Roedd y llwybr yn fwdlyd a garw wedi'r glaw trwm ac wir, dyma Keith a finnau'n 'dechrau simsanu braidd, a rhyw ysictod fel petai'n dod drosom ni'. Ie, dyna fo – *puncture* gan nodwyddau pigog y coed pîn!

Ffonio mam a dad oedd yn ein dilyn yn y *motorhome*; yn cario ein bagiau ac yn sicrhau ein bod yn cael digon i'w yfed a bwyta'n brydlon. Buan iawn y cawsom hyd i siop fawr beiciau ym Merthyr a chael trwsio'r beiciau.

Erbyn hyn roedd hi'n bwrw glaw yn sobor iawn a dyna fore anghynnes o'n blaenau – y dringo mawr, sef y Bannau. Roeddent yn hynod o hardd ond:

'O pam, Arglwydd, y gwnaethost
y Bannau mor serth?!'
A choesau'r tri beiciwr heb nerth.

Ond roedd yn braf cael stelcian ennyd ar y top a chael torri syched cyn gwibio i lawr a'n trwynau am Aberhonddu hynafol. Cawsom groeso mawr gan Sue Hughes, rheolwraig Gwesty'r Castell a chyfle i ymgeleddu a chael gorffwys. Wedi pryd o fwyd amheuthun, gwely cynnar a chysgu fel top wedi taith o 60 milltir,

'Na, ni fu dwthwn
fel y dwthwn hwn.'

12 Awst. O Aberhonddu i Lanidloes
Codi'n fore, agor y llenni – GLAW! 'Glorious Twelfth' wir! Brecwast mawr eto heddiw a'n diolch yn fawr i staff y gwesty. Allan i'r glaw trwm a bu'n rhaid stopio i fochel gan nad oeddem yn gweld dim!

Wedi reidio caled, seibiant yn Llanelwedd ac yna ymlaen am Rhaeadr. Roedd mam a dad yn mynnu ein bod yn cael pryd o fwyd poeth yn y Lamb – roeddem ar ein cythlwng ac roedd y cyri yn ffantastig!

Dylan oedd y cyntaf i gyrraedd y Llew Coch yn Llanidloes, gan fod Keith a finnau wedi mynd i ben draw y ffordd osgoi – doedd dim diwedd ar frolio Dylan! Sôn am groeso tywysogaidd gan Geoff ac Elaine Hawkins. Cawsom gyfle i gael bath poeth i lacio'r croen tyn, gorffwys a phryd o fwyd da. Gwely cynnar i'r hogia wedi taith hirfaith o 60 milltir.

13 Awst. O Lanidloes i Lanbedr
Roeddem wedi codi'n gynnar a chael clamp o frecwast mawr. Edrych drwy'r ffenest – glaw 'eto'! Roeddem wedi cytuno i gyfarfod mam a dad a Gwyn, y dyn camera, wrth Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth, ond, och a gwae i mam! roedd hi'n ddiwrnod marchnad a doedd dim modd cael lle i barcio. Felly, i osgoi Dinas Mawddwy, anelu am Aberdyfi (nid Aberteifi, Keith!) Roedd y glaw yn chwipio'n cefnau ac roeddem mor falch o gael eistedd yng nghynhesrwydd y caffi a chael pryd ysgafn poeth a ffonio adref. Roedd mam wedi gwirioni efo'r lle – ond chafodd hi ddim siopa yno chwaith!

Roeddem yn teimlo ein bod ar ein ffordd adref erbyn hyn a, chyda hyder, fe aethom i Dywyn, yna Fairbourne gan groesi Afon Mawddach ar y bont drenau, ac i'r Bermo. Heb gymryd seibiant ymlaen â ni i Lanbedr a chroeso Cymreig yn ein disgwyl gan Jean a Gemma yn Nhafarn y Fictoria. Daeth Lisa a mam a dad am bryd o fwyd atom gyda'r nos a threulio noson o rannu profiadau a llond bol o chwerthin. Yna noswylio wedi taith o 76 milltir.

14 Awst. O Lanbedr i Gaernarfon
Codi am 9.00, edrych drwy'r ffenest – methu coelio'n llygaid – haul, o'r diwedd

Wedi brecwast mawr a diolch o waelod calon am y croeso, am Harlech â ni. Yna dros y bont i Benrhyndeudraeth, ar hyd y trac beicio dros y Cob ac anelu am Pen Nionyn, Y Groeslon. Cyrraedd y Groeslon o gwmpas 1.00 o'r gloch a chael croeso mawr. Roeddem i fod i gyrraedd Caernarfon am 4.30, felly doedd dim amdani ond chwarae pŵl am deirawr ac yfed oren a phepsi!

Erbyn 4.00 roeddem yn llawn gwynt ac yn dyheu am orffen y daith hirfaith. Felly, 'teg edrych tuag adref' ac i ffwrdd â ni ar y llwybr beicio am Gaernarfon.

Roedd ein calonnau'n curo wrth ddod rownd y tro am Yr Harbwr a'r wefr o weld y dyrfa fawr yno i'n croesawu yn fythgofiadwy.

Diolch i Bryn Fôn am ein croesawu mor wresog. Diolch i'r newyddiadurwyr, i reolwr yr Harbwr, ac i Haf, a diolch arbennig i Magi o Benygroes am sicrhau lle i ni aros ar hyd y daith ac am y ffonio cyson. Diolch hefyd i Gwyn, y gŵr camera sydd wedi ffilmio'r daith yr holl ffordd o Gaerdydd i Gaernarfon. Bydd yr hanes i'w weld ar y rhaglen *Hacio* yn ystod yr hydref.

I chwi, yn deulu a ffrindiau, diolch am eich haelioni tuag at ein helusennau Ymchwil Cancr Ysbyty Christie's, Ymchwil Clic Ysbty Gwynedd ac Ymchwil yr Arennau Ysbyty Gwynedd. Rydym eisoes, rhyngom, wedi codi o gwmpas £7,000. Bydd y noddi yn cau ddiwedd Medi. Diolch o galon i bawb.

Gall y tri ohonom ymfalchïo ein bod wedi ymdrechu ymdrech deg fel gwerthfawrogiad i'n llawfeddygon.

Dafydd Du yn ein cychwyn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 358
MEDI 2008

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Hydref	22 Medi	2 Hydref	Penisarwaun	Ann Evans	872 407
Tachwedd	20 Hydref	30 Hydref	Llanberis	Gwilym Evans	870625

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost
alwena@gwasggwynedd.com
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
DYDD LLUN, 22 MEDI
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 2 Hydref
Dyddiad Gosod
SUL 28 MEDI am 5.00

Llythyrau

Pen Ceunant Isaf
Llanberis

At Ddarllenwyr Eco'r Wyddfa,

Hoffwn estyn diolch i drefnwyr Ras Yr Wyddfa am alluogi imi gasglu'r swm o £600 yn y Bwthyn Te, ar ddiwrnod y Ras, tuag at Dîm Achub Mynydd, Llanberis.

Ymhlith yr achosion da sydd wedi elwa dros y blynyddoedd drwy'r casgliadau a wnaed yma yn ystod diwrnod y Ras a thrwy'r flwyddyn, mae'r Ambiwlans Awyr, Parkinsons a Ward Alaw.

Yr achos da a fydd yn elwa o gasgliad y flwyddyn nesaf fydd Cronfa Adeiladu Ystafell Newid Newydd, Clwb Pêl-droed Llanberis.

Gyda Diolch,
STEFFAN

Y Graig
Capel Curig
Betws y Coed

Annwyl Ddarllenwyr yr Eco,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i rieni, disgyblion a staff Ysgol Gynradd Llanrug am eu caredigrwydd tuag ataf yn ystod fy nghyfnod fel athrawes yn yr ysgol. Diolch hefyd i bawb, gan gynnwys cyn-ddisgyblion a'u teuluoedd, am y dymuniadau da a'r rhoddion niferus a dderbyniais ar achlysur f'ymddeoliad.

Mawr yw fy nyled i bentref Llanrug a'i drigolion. Bydd yr atgofion am y cyfnod a dreuliais yn eich plith yn rhai a drysoraf am byth. Diolch am eich cefnogaeth ddiflino ar hyd y blynyddoedd.

Yn gywir iawn
NÊST TUDUR EFANS

Sefydliad Prydeinig y Galon

Fel canlyniad i'r casglu o dŷ i dŷ yn ddiweddar casglwyd y swm o £1,811.52c rhwng yr ardaloedd a nodir er budd Sefydliad Prydeinig y Galon: Penisarwaun, Bethel, Llanrug, Llanberis, Llanddeiniolen, Waunfawr, Caeathro, Rhyd-ddu, Deiniolen, Dinorwig a Nant Peris.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bwb a gyfrannodd eleni eto, ac i'r rhai a fu'n casglu.

Llwyddwyd i gasglu yng Nghaernarfon a'r Cylch y swm o £5,022.37.

Merched y Wawr Arfon yn cyflwyno rhodd i Dŷ Gobaith yng Nghymru

Ym mis Gorffennaf, yn dilyn dau weithgaredd eleni gan aelodau o Bwyllgor Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon, er budd yr Anabl, cyflwynwyd siec am £2,920 tuag at waith yn Hosbis Plant Tŷ Gobaith yng Nghymru. Yn y llun gwelir nifer o aelodau'r Pwyllgor o flaen y Siop ym Mangor, gyda Glenys Griffiths, y Trysorydd yn cyflwyno'r siec i Catrina Cameron, Tŷ Gobaith.

Cofiwch am y Cyfarfod Blynyddol Sefydliad Coffa Llanrug, 17 Medi am 7.30

RHODDION

£25: John a Morfudd Jones, Bwthyn Bryn Coch, Llanrug.

£20: I gofio am Eddie a Moreen Lennon, Ruth, Catrin a Miriam.

£10: Teulu Mrs Sarah Griffiths, 10 Glanmoelyn, Llanrug; N. Williams, Craig y Don, Llandudno; Helen Parry, 15 Stryd Turner, Llanberis; Anita Butler, 11 Gorwel, Llanfairfechan; Dilys Baylis, Llanberis; Megan Owen, 59 Maes Padarn, Llanberis; Gloria Pitts, Llanberis; Steffan Jones, Pen Ceunant Isaf, Llanberis; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Mrs Jane Roberts, Glasfryn, 24 Stad Bro Waun, Waunfawr; Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth Gogledd, Deiniolen; Mrs Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Mr Evie Jones, 3 Bryn Tirion, Penisarwaun.

£5: Mair Evans, 4 Talybont, Llanrug; Elizabeth Griffiths, 6 Stryd Turner, Llanberis; Marion Davies, 5 Rhes Efrog, Llanberis; Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Sheila Roberts, Tan y Buarth, Bethel; John Maldwyn a Mair Jones, 13 Tan y Buarth, Bethel; Rhian, Dulas, 4 Stryd Fawr, Deiniolen; Buddug E. Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen; Edna Jones, Maes Gwylfa, Deiniolen; Bethan a Macari, Deiniolen; Canon Tegid Roberts, Arwel, Penisarwaun; Heulwen Williams, Glanmoelyn, Llanrug; Appy Jones, Turner Street, Llanberis. Mrs Ceri Llwyd Hughes, 7 Hafan Elan.

Annwyl Olygydd,

Gwerthfawrogi'r Gwaith Gwau

Ar ran elusen Achub y Plant, hoffwn ddiolch yn ddidwyll iawn i bawb o'r fro fu wrthi'n hogi eu gweill ac yn gwau hetiau i ni fel rhan o'n hymgyrch i gadw babi newydd-anedig yn ddiogel rhag afiechydon marwol fel hypothermia a niwmonia.

Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel, gyda thros 2,500 o hetiau yn cyrraedd ein pencadlys yn Farringdon, Llundain yn ddyddiol! Mae hyn yn cyfateb i 104 o hetiau yn cael eu gwau bob awr ac yn golygu ein bod wedi derbyn dros 200,000 o hetiau bach hyd yma. Mae miloedd ohonynt eisoes wedi eu hallforio i Tibet, i wersylloedd yn Ne Affrica, i Kenya ac i helpu'r rhai sy'n dioddef wedi'r seiclon yn Burma.

Mae miloedd o negeseuon hefyd yn llifo i mewn i'r Prif Weinidog, Gordon Brown, yn galw arno i weithredu ar fyrder neu bydd miliynau o blant yn parhau i farw yn ddiangen bob blwyddyn.

Ni fyddem yn gallu cyflawni hyn heb eich cefnogaeth a'ch cymorth chi.

Os nad ydych wedi cael cyfle i wau het eto ac yr hoffech gefnogi'r ymgyrch, gallwch dderbyn mwy o wybodaeth ar ein gwefan: www.savethechildren.org.uk/knitting ac mae'r patrwm ar gael yno i'w lawrlwytho yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Neu ffoniwch ni yn y swyddfa yng Nghaerdydd ar 029 20 803265 am daflen wybodaeth.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr hetiau yw 21 Hydref, felly mae ychydig o wythnosau ar ôl eto.

Wedi i chi wau'r hetiau a chynnwys eich neges i Gordon Brown, postiwch nhw at Save the Children, 1 St John's Lane, Llundain, EC1M 4AR.

Yn gywir
EURGAIN HAF
Swyddog y Cyfryngau
Achub y Plant yng Nghymru

DIOLCH. Ar ran Ruth, hoffai Harry a Megan Martin, Fairhaven, ddiolch yn fawr i ddarllenwyr yr *Eco* a'u holl ffrindiau yn yr ardal am gefnogi ei hymgyrch i gasglu arian tuag at Sefydliad Aren Cymru.

Cwblhaodd Ruth y daith gerdded, dros fil o filltiroedd, o Land's End i John o'Groats, ym mis Gorffennaf, wedi tri mis ar y ffordd.

Mae wedi casglu dros £4,000 yn barod ac mae'n gobeithio cyrraedd ei nod o £5,000 a throsglwyddo'r arian i'r Sefydliad yng Nghaerdydd yn ystod yr hydref. Diolch yn fawr iawn i bawb.

SEINDORF ARIAN LLANRUG

Cyngerdd Diwedd Tymor

Ar ôl cyfnod o ugain mlynedd yn arwain Adran Ieuenctid Seindorf Arian Llanrug, trosglwyddodd Mike Roberts yr awennau i Rebecca Roberts a Collette Williams yn eu Cyngerdd Diwedd Tymor, nos Sul, 13 Gorffennaf yn Ysgol Gynradd Llanrug. Cyflwynwyd rhodd i Mike a darllenwyd cadwyn o benillion digri i nodi'r achlysur.

Fel rhan o'r dathliadau ac i fynegi eu gwerthfawrogiad o waith Mike fe gyflwynodd y Band Ieuenctid a'r Band Iau amrywiaeth o ddarnau dan faton y ddwy arweinyddes newydd. Daeth y ddau fand ynghyd i gyflwyno'r darn olaf ac i gloi perfformiad y noson.

Roedd cynulleidfa deilwng iawn o rieni a chyfeillion yn cefnogi'r dathliadau ac fe gafwyd cyfle i barhau'r gwmniaeth gydag amrywiaeth o fwydydd blasus wedi'i darparu gan y rhieni.

Bu aelodau adrannau Ieuenctid ac Iau y Band yn perfformio mewn sawl man yn lleol dros fisoedd yr haf, e.e. Stesion Wyddfa a Charnifal Nant Peris.

Ymhen amser bydd aelodau'r Adran Ieuenctid yn cael gwahoddiad i ddod yn aelodau llawn o Seindorf Hŷn Llanrug ac ar hyn o bryd mae swydd yr Arweinydd Cerddorol yn wag – cysyllter ag Alan Dulyn (09947 678291) am ragor o fanylion.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno bob amser, felly os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r isod:

Adran Iau: Collett Williams (01286) 870023.

Adran Ieuenctid: Rebecca Roberts (01248) 600334

Mike Thomas yn trosglwyddo'r baton i'r ddwy arweinyddes newydd fydd yn arwain adrannau Ieuenctid ac Iau.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref
Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
Yswiriant Teithio
Cynllunio Angladd
Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:
Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
01286 678310

AGE Concern

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynnychiolydd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfryngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestredig

A46V4AWST07 MC712

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Cyfres Radio Newydd gan Ddau o Ardal y Llechi

Dilyn taith cimwch o fae Caernarfon i blât bwyty yn Sir Fôn ydi cynnwys rhaglen gyntaf mewn cyfres ddifyr newydd ar Radio Cymru: *Straeon y Môr*. Cynhyrchwyd y gyfres gan Stephen Edwards o Lanberis a Llion Iwan o'r Waunfawr. Cyflwynydd *Straeon y Môr* fydd Dilwyn Morgan.

Dros y canrifoedd, mae yna lawer iawn wedi digwydd ar y môr, megis llongau yn cario nwyddau i Gymru o bedwar ban byd. Ond mae'r môr yn rhan o'r bywyd modern hefyd, yn enwedig i unigolion o Gymru sydd wedi, ac yn, defnyddio'r môr i ennill eu bara menyn. Cyfres yn holi pobl gyffredin Cymru fydd hon, sy'n gwneud eu bywoliaeth ar y môr neu bobl sydd wedi gweld y byd wrth weithio ar y môr, neu wirfoddoli.

'Yn ogystal â bod yn ddigrifwr a chymeriad difyr, mae Dilwyn yn llongwr profiadol ac yn gyflwynydd perffaith i'r gyfres,' meddai Stephen Edwards. Cwmni dylunio a gwasanaethau cyfryngau Stephen, CREAD Cyf. sydd wedi cynhyrchu'r gyfres.

Yn y rhaglenni cawn hefyd gwrdd gyda thri brawd o'r gogledd sydd yn sgwad hwylio Prydain a'u golygon ar gemau Olympaidd 2012; bad achub Moelfre a Phorthdinllaen; hwylio fel diddordeb hamddenol, a hefyd ceidwad goleudy.

'Stephen gafodd y syniad am wneud cyfres am y môr, a gan fod gen i brofiad cynhyrchu radio ac wedi cyfarwyddo rhaglenni hwylio am Ellen MacArthur, roedd yn syniad da i ni gyfuno'n sgiliau gyda'n gilydd,' meddai Llion Iwan, sy'n darlithio ym Mhrifysgol Bangor. 'Rydan ni'n dau yn rhedeg mynyddoedd hefyd, felly mae tipyn gennym yn gyffredin,' ychwanegodd.

Treuliodd Llion ddeng mlynedd yn gweithio gyda'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni radio a theledu a bu'n cyfarwyddo rhaglenni dogfen ar BBC1, BBC2, BBC4 ac S4C.

Mae Stephen Edwards yn llais cyfarwydd a phoblogaidd iawn ar donfeddi Radio Cymru wrth iddo gyflwyno, yn ei ffordd unigryw, amryw o raglenni dros y deng mlynedd diwethaf.

'Fel roedd Llion yn dweud, mi ges i'r syniad a manteisiais ar y ffaith fy mod i'n nabod Llion ac yn gwybod am ei brofiad a'i holi oedd o'n ffansïo bod yn rhan o'r cynhyrchiad yma. Rhyngom mae gennym dros ugain mlynedd o brofiad o ymchwilio, cynhyrchu a chyflwyno ar raglenni radio: newyddion, ffeithiol ac adloniant,' meddai Stephen. "Nôl yn mis Hydref 2007 mi wnes i yrru'r syniadau ymlaen i'r BBC a dwi'n falch o gael fy nghomisiynnu i gynyrchu dwy gyfres o raglenni.'

Yn ôl Stephen, 'Mae'r profiad o gynhyrchu rhaglen ddogfen fel hon yn hollol wahanol i gyflwyno rhaglen fyw yn y stiwdio. Mae'n rhaid cofio a nodi popeth, y cwestiynnau i'w holi ar leoliad a'r atebion, er mwyn rhoi y jigsô at ei gilydd yn y stiwdio wrth ei olygu.'

Yn ogystal â'r gyfres yma, *Straeon y Môr*, mae Stephen wedi cael ei gomisiynnu gan BBC Cymru i gynhyrchu cyfres o'r enw *Carlamu* ar gyfer Radio Cymru yn y flwyddyn newydd. Cyfres a fydd yn cael ei ddarlledu yn ystod yr wythnosau cyn y Grand National, ac a fydd yn dilyn Cymru Cymraeg sydd yn gweithio o fewn y byd rasio ceffylau.

Wrth i chi ddarllen yr hysbyseb, fe welwch fod y gyfres wedi dechrau cyn i'r rhifyn yma o *Eco'r Wyddfa* gael ei gyhoeddi, ond gallwch wrando 'nôl os hoffwch, wrth fynd draw i wefan radio cymru:

www.bbc.co.uk/radiocymru

Cariad at Iaith. Pum munud yng nghwmni...

MEGGAN LLOYD PRYS

Americanes wyth ar hugain oed a hyfforddai tiwtor Cymraeg i Oedolion.

Tra roedd Meggan Lloyd Prys yn astudio Addysg ar gyfer ei gradd M.A ym Mhrifysgol Rio Grande Ohio yn 2005, fe gyfarfu â Chymro o bentref Rhiwlas ger Bangor. Yr oedd Cynog Prys yno ar ôl iddo ennill ysgoloriaeth i wneud yr un cwrs M.A ac i hybu diwylliant Cymraeg yn Ohio.

Flwyddyn yn ddiweddarach, fe ofynnodd Cynog y cwestiwn mawr ac fe hedfanodd Meggan i Gymru ar y 21ain o Fehefin. A chyn iddi gael cyfle i ddad-bacio ac ymlacio ar ôl y siwrnai hir dros fôr yr Iwerydd, hyd yn oed, aeth Meggan ar gwrs haf i ddysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Priodwyd y ddau ar y 29ain o Orffennaf 2006.

Erbyn hyn, mae Meggan yn rhugl yn y Gymraeg ac yn derbyn hyfforddiant gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ym Mangor i ddod yn diwtor Cymraeg.

Dewch i adnabod yr Americanes sydd wedi cyflawni cymaint dros y ddwy flynedd diwethaf...

Pryd y gwnaethoch gychwyn dysgu Cymraeg?

Ysgol Haf 2006 ym Mangor, y diwrnod ar ôl i mi symud i Gymru o America! Roeddwn i'n priodi yn Gymraeg ymhen pythefnos!

(Parhad ar y dudalen nesaf)

'STRAEON Y MÔR'

Cyfres newydd ar BBC Radio Cymru.

Nos Sul am 5pm

Ail ddarllediad nos Fercher am 6pm

Awst 24 - Taith y Cimwch
Awst 31 - Hwylio am Aur
Medi 7 - Achub ar y Môr
Medi 14 - Heli yn y Gwaed

cread cyf.

Cynhyrchiad CREAD Cyf.
www.creadcyf.co.uk

Pam y gwnaethoch benderfynu mynychu'r cwrs?
Roeddwn i eisiau medru siarad efo fy ngŵr a'i deulu yn Gymraeg, ac o'n i ddim isio iddyn nhw orfod troi at y Saesneg pan o'n i yn bresennol.

Beth yw eich hoff air Cymraeg?
Sgwarnog! Roedd un o fy nhiwtoriaid yn arfer dweud mod i'n 'dilyn sgwarnog' pan oeddwn i'n mynd i siarad oddi ar y pwnc.

Eich hoff fwyd?
Frickadilly, bwyd yn cynnwys meatballs, reis a saws madarch (rysait teuluol!)

Y tro diwethaf i chi ddweud celwydd?
Mi dd'wedais wrth fy ngŵr nad oeddwn i'n cael hwyl yn yr haul, er mod i'n ymlacio'n braf mewn pwll yn Ohio, am ei fod o'n gorfod gweithio yn ôl yng Nghymru!

Eich hoff win?
Barolo, gwin coch o'r Eidal.

Beth sydd ar eich ipod yr wythnos hon?
Canu Gwlad Americanaidd (dydy fy ngŵr ddim yn hoff ohono o gwbl!) a Cowbois Rhos Botwnnog.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi deimlo'n euog?
Heddiw, gan fy mod i yn dal i fod ar fy ngwyliau yn America a fy ngŵr wedi gorfod mynd yn ôl i'r glaw yng Nghymru ers dydd Mawrth.

Petaech yn cael cyfarfod unrhyw un, boed fyw neu farw, pwy fuasai'r unigolyn hwnnw a pham?
Mi faswn i'n hoffi cael paned o de efo Ghandi.

Beth sydd yn codi ofn arnoch?
Pryfed cop.

Ydych chi'n amgylcheddol gydwybodol?
Dwi'n trio bod, ond mae'n anodd peidio â hedfan pan mae fy nheulu yn byw yn America!

Y gwyliau gorau erioed – lle a pham?
Ooo... Yr Eidal, ar ôl graddio o'r coleg. Roeddwn i efo fy ffrindiau gorau yn y byd ac mi gawson ni gymaint o hwyl.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi roi cwtsh i rywun?
Nos Lun.

Pe gallech deithio yn ôl i'r gorffennol, pa gyfnod y buasech yn ei ddewis? Pam?
Mi fyddai'n well gen i fynd ymlaen i'r dyfodol.

Eich hoff le yng Nghymru?
Ynys Llanddwyn.

A hoffech ddysgu iaith arall?
Mi faswn i'n licio dysgu Eidaleg.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi grio?
Pan wnes i weld fy chwaer, sy'n ddwy ar bymtheg oed yn crio yn ystod angladd ei chariad.

Pwy oedd eich arwr pan oeddech yn blentyn?
Fy Modryb Beth.

Beth, neu pwy, sydd yn eich gwylltio?
Gwylio George Bush yn siarad.

Y tro diwethaf i chi chwerthin?
Tua pum munud yn ôl.

Y tro diwethaf i chi weiddi ar y teledu?
Dwi ddim fel arfer yn gweiddi, ond mi wnes weiddi wrth wylio Fox News yn ddiweddar.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi ddweud 'dwi'n dy garu' wrth rywun?
Heddiw, pan oeddwn i'n siarad efo fy ngŵr ar y ffôn.

Y CLOSSIAID YN CYFARFOD

Tywynodd yr haul ar bnawn Sul yng nghanol lli Awst pan gyfarfyddodd tua 60 o deulu'r Clossiaid ger Ty'n Llan. Doedd amryw erioed wedi gweld ei gilydd o'r blaen, er ein bod i gyd yn ddisgynyddion i John Closs, a ddaeth o Swydd Efrog i'r Nant fel Asiant i'r Gwaith Copr yn 1760. Ymgartrefodd yn Nhyddyn Alis ac yna yn Nhy'n Llan, lle bu'r teulu'n trigo tan chwe degau'r ganrif ddiwethaf.

Ymfudo i America 1845

Robert Closs, ŵyr i John Closs a gadwai Ty'n Llan yn 1845. Wedi sylweddoli bod ei wraig yn mynd yn or-hoff o'r ddiod gadarn penderfynodd ymfudo i America. Gadawodd ei deulu mewn man diogel ger Llyn Michigan a cherdded gyda wyth o Gymry eraill nes cyrraedd llecyn hardd a'i alw'n 'Welsh Prairie' ger Cambria, Wisconsin. Cododd gaban pren a gweithio'n galed ar y tir. Daeth yn ffermwr llwyddiannus a galwodd ei ffermdy cerrig yn Llan, er cof am ei hen gartref. Cyn bo hir codwyd ysgol a chapeli Cymraeg ar hyd y fro.

Olwen yn America

Pan ddaeth Olwen Ebbrell (Rees gynt) ar draws llythyrau a ysgrifennodd ei hewyrth, Owen Rowlands, o America i'w frawd yn Llanberis, penderfynodd hi a'i gŵr, Harry, ddilyn ei gamrau yn U.D.A. Cyrhaeddodd Cambria a chyfarfod disgynnydd i Robert Closs, sef Lorraine Closs-Hahn. Gwirionodd o glywed fod Jeff, mab Lorraine, yn dal i ffermio yn Llan, Cambria. Buont yn cysylltu drwy e-bost ers hynny.

Americanwyr yn Nant

Symudodd rhai o ddisgynyddion Robert Closs i Wymore, Nebraska. Pan fu farw Ellsworth Closs, yr olaf o siaradwyr rhugl y Gymraeg yn yr ardal ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth y teulu i Nant Peris i wasgaru ei lwch. Dywedodd Gwenith Closs-Colgrove, a ganodd yn Gymraeg ar yr achlysur, i'w thad deimlo heddwch pan ymwelodd â throed yr Wyddfa. Ond ni welsant neb o'r Clossiaid yr adeg hynny! I gofio amdano maent wedi agor Amgueddfa Gymreig yn Nebraska.

Eleni, penderfynodd Gwenith a'i gŵr, Gary, gyfarfod ei brawd, Stan Closs, o Awstralia a'i chyfnither, Lorraine Closs Hahn, a'i gŵr, Eugene, o Cambria, a chael gwyliau yng Nghymru. Y tro yma roeddent mewn cysylltiad ag Olwen a minnau. Felly, rhaid oedd gwahodd aelodau o deulu'r Clossiaid i'w cyfarfod.

Nant Peris 2008

Roeddan nhw wedi gwirioni gweld yr holl bobol ddaeth i'r Nant ar Awst 17. Er nad oedd yr eglwys yn agored buom yn edrych ar gerrig beddau'r teulu, pob un yn agor drws i stori deuluol. Cawsom hanes Clossiaid America gan Gwenith, Stan a Lorraine, dywedodd Olwen hanes ei thaith i Cambria, a William Arthur Williams a ddaeth â hen Feibl Ty'n Llan i'w ddangos, hanes Clossiaid y Nant. Yna darllenodd Ifor ap Glyn ei gerdd 'Swper Chwarel' sy'n sôn am gysylltiadau teuluol â'r lechen las, a'i wreiddiau yn y Fachwen. Canodd Gwenith a Stan 'Ai am fy meiau i' ar y dôn 'Pen Parc' ac adroddodd pawb Weddi'r Arglwydd. O fewn tafliad carreg i'r hen gartref, claddodd Stan Closs ffiol oedd yn cynnwys llwch ei fam, Hazel Closs.

Ty'n Llan

Roeddan ni'n lwcus fod Anne Cumberton, un arall o'r Clossiaid yn cadw Ty'n Llan,

'Mi fydda i wrth fy modd pe bai pawb yn dod acw am baned ac mi gawn ni stafell i sgwrsio,' meddai. Yn wir mi gawsom ni groeso mawr a the parti go iawn yng nghwmni teulu Anne, llawer ohonynt yn dal i fyw yn Nant. Daeth rhai â hen luniau'r teulu, pren achau a dogfennau o bob math yno. Dangosodd Siwan Tecwyn gopi o lythyr yn llawysgrifen John Closs a anfonodd at berchnogion y gwaith copr yn 1760.

Braf oedd gweld cenhedlaeth newydd o Glossiaid yno a'r ieuengaf oedd Henri Closs Hughes, naw mis oed o Borthaethwy. Y ddau hynaf oedd Huw Roberts, Pwllheli (Llanberis) a John Llywelyn Evans (mab Nyrs Closs). Rydan ni'n ddiolchgar iawn i Gwyndaf Hughes a dynnodd luniau i ni gofio'r achlysur unigryw.

Ar y deisen-ddathlu roedd 'CLOSSIAID, TY'N LLAN-1760–2008'. Fel y dywedodd Dafydd Whiteside Thomas, a ddaeth atom i sgwrsio a rhannu'i wybodaeth,

'Roedd gan Elizabeth, un o ferched John Closs, 64 o wyrion felly mae miloedd o'i ddisgynyddion ar hyd a lled y byd.'

Enw canol ydi Closs i'r mwyafrif erbyn hyn a Stan Closs, Awstralia oedd yr unig un efo'r cyfenw 'Closs' yn ein mysg. Beth ddwedai'r hen John Closs tybed?

MARGARET WYN ROBERTS

Americanwyr gydag Olwen a Margaret.

O flaen Ty'n Llan.

O SIAMBAR SELWYN

O ddarllen pytiau o fy anerchiad ola o'r Maen Llog fel Archdderwydd Cymru a gyhoeddwyd yn y *Cymro* a'r *Daily Post*, mae 'na rai wedi gofyn i mi am gopi llawn o'r hyn a draddodwyd ar Grin y Bala ar ddiwrnod cyhoeddi Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau 2009.

* * *

Mae'n wir ein bod ni fel eisteddfodwyr yn teimlo'n eitha pryderus wrth ffarwelio â'n gilydd ar Barc y Faenol yn 2005. Pryderu yr oeddan ni – tybed fydda 'na Eisteddfod yn y gogledd ymhen dwy flynedd! Ond diolch i gyfeillion Sir y Fflint, fe ddaethon nhw i'r adwy mewn byr o amser ac, o dan arweiniad eu capten profiadol – y Cymrawd Aled Lloyd Davies – fe symudwyd ymlaen i sicrhau y bydda 'na Eisteddfod yn 'nwy fil a saith', a honno ar *dir Cymru*. Ac, er gwaetha bygythion y tywydd ychydig ddyddiau cyn yr Ŵyl, fe gawsom brofi un o'r Eisteddfodau mwya hapus a llwyddiannus ar gyrion hen dre'r Wyddgrug.

Ac, wrth gwrs, fe gafwyd Prifwyl yr un mor llwyddiannus rhwng y ddwy yn y gogledd yn Abertawe a'r Cylch yn 2006. A phrofiad dymunol ydi cael mynd i Steddfota i wahanol rannau o'r hen wlad 'ma yn flynyddol.

Oes, mae 'na dair blynedd wedi hedfan heibio, a dwi'n hynod ddiolchgar i mi gael tair eisteddfod hapus a llwyddiannus, gyda theilyngdod ym mhob un o'r seremonïau.

Do, fe gafwyd pryderon, ond mi rydan ni'n ymfalchïo ac yn gwbl hyderus bod yr hen long eisteddfodol 'ma wedi goresgyn sawl storm, ac er bod 'na ambell don annisgwyl yn mynnu bygwth yn achlysurol, mae hi ar y cyfan yn hwylio'n eitha esmwyth ar hyn o bryd.

Ac mi rydan ni'n edrych ymlaen at gael angori yr hen long 'ma yng Nghaerdydd ymhen y mis, lle mae 'na ragolygon am eisteddfod lwyddiannus arall yn ein prifddinas.

A hyn sy'n galonogol, gyfeillion – drwy gydweithrediad Cymdeithas y Cynghorau Sir – mae 'na sawl ardal bellach yn awyddus i groesawu'r Eisteddfod. Ac mae'n bwysig i'r Eisteddfod ymweld â gwahanol ardaloedd yn y gogledd, y de a'r canolbarth yn eu tro.

Problem fawr y dyddiau hyn ydi sicrhau safleoedd addas a diogel ar gyfer cartrefu'r Ŵyl. Mae'r hen ddyddiau pan gysylltwyd yr Eisteddfod â thre neu ddinas yn unig, wedi hen ddiflannu. Eisteddfod Sir neu Gylch neu Gyffiniau arbennig ydi hi bellach. Ond, fe gafwyd safleoedd cwbl addas a derbyniol yn ddiweddar iawn a hynny mewn mannau hyfryd a diddorol.

'Ble mae Meifod?' dyna gwestiwn sawl un ynglŷn â safle Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2003. A dyna Eisteddfod gofiadwy a gafwyd yno. Ac mae 'na amryw yn gofyn i mi yn wythnosol ar strydoedd Caernarfon,

'Pryd ma'r Steddfod am ddod i'r Faenol eto?' Oes, dwi'n siŵr bod 'na sawl darn o dir mewn gwahanol rannau o'r hen wlad 'ma a fyddai'n gwbwl ddelfrydol i gartrefu'r ŵyl.

Efallai ein bod ni'n rhy barod i ystyried llwyddiant yr Eisteddfod o safbwynt yr elw ariannol a wneir yn unig. Wrth gwrs, mae hynny'n hanfodol bwysig. Ond yr elw mwya ydi'r elw diwylliannol a chymdeithasol a brofir yn sgil yr Eisteddfod. Y brwdfrydedd a'r gweithgarwch a brofir wrth baratoi ar gyfer croesawu'r Ŵyl i'r gwahanol ardaloedd, a'r effaith a adewir ar ôl yn yr ardaloedd hynny.

A llawenydd ydi deall bod 'na gymaint o bobol ifanc ym Meirionnydd 'ma yn cymryd rhan yn y gwahnol weithgarwch ar gyfer sicrhau y bydd Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau yn un o'r goreuon.

Diolch am frwdfrydedd ein pobol ifanc ni. Beth am i ni weld mwy ohonyn nhw yn awyddus i fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod, ac o bosib dod yn aelodau ar Gyngor yr Eisteddfod hefyd?

Ydi, gyfeillion, mae hi'n bwysig i'r Eisteddfod ymweld â phob cornel o Gymru yn ei thro, fel y byddwn ni'n hybu, hyrwyddo a diogelu ein diwylliant a'n hiaith ymhob rhan o'r hen wlad 'ma.

Ga i, wrth ddod i derfyn fy nhymor fel Archdderwydd, fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, a'u help i wneud y tymor yn un hapus a chofiadwy i mi. Mae'n braf cael datgan na dd'wedodd neb yr un gair cas wrtha i yn ystod y tair blynedd.

* * *

Ga i ddiolch i aelodau Bwrdd yr Orsedd, ac yn enwedig i'r Cofiadur a'r Arwyddfardd am eu cydweithrediad parod. Diolch yn arbennig i Feistres y Gwisgoedd am ei gwasanaeth a'i chyfraniad i'r Eisteddfod ac i'r Orsedd am bron iawn i chwarter canrif. Diolchaf yn bersonol iddi am fy ngwisgo i mor daclus, ond yn fwya arbennig am fy nad-wisgo i, a hynny mor gyflym ar ddiwrnod poeth. Siân Aman ydi'r unig un sy'n gwybod y gyfrinach, beth oeddwn i'n ei wisgo o dan glogyn yr Archdderwydd.

* * *

Ac i gloi, fe garwn i ddiolch am y croeso a gefais o dderbyn gwahoddiad i nifer o Eisteddfodau Lleol a Thaleithiol yn ystod fy nhymor fel Archdderwydd. Cofiwn, heb y rhain fydda 'na ddim Prifwyl. Diolch i bawb

* * *

Llongyfarchion cynnes i'r cyfeillion o Fro'r Eco a fu'n llwyddiannus yn y Brifwyl, mae'n siŵr y bydd cyfeiriad at hyn yn y rhifyn hwn o'r Eco.

Llawenydd pur i mi oedd gweld Hilma Lloyd Edwards yn codi brynhawn Gwener ar alwad y corn gwlad. Roeddwn i wedi darogan hyn ers rhai blynyddoedd ac, fel y gŵyr Hilma, roeddwn wedi gobeithio cael ei anrhydeddu yn ystod fy nhymor fel Archdderwydd, a dyna be dd'wedais wrthi yn syth ar ôl y cadeirio,

'Pam na fasat ti'n ennill hon y llynedd?'

Llongyfarchiadau cynnes, Hilma, a diolch am dy gefnogaeth i'r eisteddfodau bach dros y blynyddoedd. Os na chefais y fraint o dy gadeirio yn y Brifwyl, mi gefais y fraint o wneud hynny mewn chwe eisteddfod leol.

Ymlaen yn awr i gyflawni camp y Prifardd a'r Prif Lenor Mererid a, phwy a ŵyr, i fod y ferch gyntaf i fod yn Archdderwydd/Archdderwyddes Cymru? Pob dymuniad da i'r dyfodol, Hilma.

DYDDIADUR DYN DŴAD

Dafydd Huws (ar y dde) ydy awdur 'Dyddiadur Dyn Dŵad' *ac roedd môr o chwerthin yn Y Babell Lên yn y Steddfod yng Nghaerdydd wrth i Llion Jones ddarllen rhannau o'r gwaith.*

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael flonydd

SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Darlith Goffa Merfyn Williams

Y gyntaf mewn cyfres newydd flynyddol:

'Cynefin Dyn a'i Lên'

gan

Yr Athro Gwyn Thomas

am 7.30pm

Nos Fercher, Hydref 8fed, 2008

ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog

Bydd copi o'r ddarlith ar werth ar y noson

Cynhelir dan adain Bwrlwm Eryri

Noddir gan:
Gyfeillion Plas Tan y Bwlch
a'r Academi Gymreig

Dewch yn llu!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Enillwyr mis Awst oedd: £30: Mrs N Huws-Roberts, Bodrida, Waunfawr; £20: Mr Lesley Williams, 4 Tŷ Hen, Waunfawr; £10: Mr Martin Williams, 6 Tŷ Hen, Waunfawr.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir Eisteddfod Bentref Waunfawr 2008 ar ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd, yng Nghanolfan y Pentref. Cynhelir Eisteddfod ar gyfer y plant yn y prynhawn ac i'r oedolion gyda'r hwyr. Croeso cynnes i bawb sy'n byw yn y pentref. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Olwen ar (01286) 650371.

LLONGYFARCHIADAU. Balchder mawr oedd bod yn adnabod y gŵr ifanc a safodd ar ei draed ym Mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd a'i weld yn cael ei dywys i'r llwyfan i dderbyn Gwobr Daniel Owen am ei nofel *Igam Ogam*. Llongyfarchiadau mawr i ti, Ifan Morgan, Pen-y-Graig ar dy lwyddiant. Llongyfarchiadau i ti hefyd ar gael dy benodi i'r swydd o is-Olygydd y cylchgrawn *Golwg*.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i rai eraill o'r pentref a fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol: yn y band, mewn partïon ac ar gystadleuaeth y ddeuawd.

LLONGYFARCHWN Myra Turner, Collfryn, ar gael ei derbyn i'r Orsedd yn yr Eisteddfod, ond oherwydd dyletswyddau adref penderfynodd mai yn y Bala y flwyddyn nesaf y bydd yn derbyn yr anrhydedd o gael ei gwisgo yn y Wisg Werdd.

LLONGYFARCHIADAU i'r rhai fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yn y Sioeau Cŵn ac Amaethyddol a'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd yn ystod yr haf.

LLONGYFARCHIADAU eleni eto i'n pobol ifanc ar eu llwyddiannau yn y gwahanol arholiadau y buont yn eu heistedd. Da iawn chi, a dymunwn y gorau ichi i'r dyfodol.

PRIODAS. Dymunwn bob hapusrwydd i Rhys Siôn, Pant Teg, ar ei briodas â Louise, o Wlad yr Haf. Yng Ngwlad yr Haf y priododd y ddau a chafwyd diwrnod heulog braf iddynt. Maent wedi ymgartrefu yn Swydd Caint.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Rob ac Alma Jones, Tan-y-Fron, a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Jim a Sally, Tŷ Capel Croes-y-Waun ar enedigaeth mab bychan, Derry, brawd i Jac a Poppy.

Ganwyd merch fach, Sioned Gwenllian, i Esyllt Dafydd, Glanfa. Llongyfarchiadau i chi ac i Meg Elis a Roger Dafydd ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf.

Llongyfarchiadau i Gwyneth Thomas, Y Syrjyri, ar enedigaeth ŵyr bach, Cian Edwin. Mae taid a nain wedi gwirioni.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Emma Williams, Stad Tref Eilian, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol, Emma.

Hefyd i Mrs Betty Hughes, Collfryn, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 89 mlwydd oed.

DERBYN SWYDD NEWYDD. Llongyfarchiadau i Sara Davies, Bryn Melyn, ar ei phenodiad i swydd yn Ysgol Gynradd Llanrug.

YMDDEOLIAD. Dymuniadau gorau i Cadi Jones, Nant, ar ei hymddeoliad o'i swydd gyda'r Mudiad Meithrin yng Nghymru.

DYMUNWN yn dda i bob un sy'n cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg neu mewn swydd yn ystod mis Medi. Gobeithio'n fawr y byddwch yn hapus ac yn mwynhau.

YMGARTREFU. Mae Alun Mabon Williams wedi penderfynu ei fod am ymgartrefu yng Nghartref Cerrig yr Afon yn Y Felinheli. Mae yn hapus yno ac yn cael cyfle i ddilyn ei bleser mwyaf o gael mynd i ganu a chystadlu yn Eisteddfodau'r cylch. Dymunwn bob hapusrwydd i chi, Alun.

DYMUNWN yn dda i'r teuluoedd sydd wedi ymgartrefu yma yn y Waun ac i'r rhai sydd wedi symud oddi yma i ardal newydd.

BEDYDDIADAU YN EGLWYS Y WAUN. Yn ystod y gwasanaeth ar fore Sul olaf mis Gorffennaf, gyda'r Parchedig Gwenda Richards yn gweinyddu a Mrs O.T. Jones wrth yr organ, bedyddiwyd dwy ferch fach o'r pentref.

Bela Wen, merch fach David a Nia Jones, Dwyfor, gyda Ioan ac Elan yn gwylio eu chwaer fach, a Cadi Llwyd, merch fach Iwan a Sara Davies, Bryn Melyn, gyda Siôn Ifan ac Efa Llwyd yn gwylio eu chwaer fach hwythau.

YR YSGOL SUL. I ddiweddu eu blwyddyn ysgol Sul cafodd y plant hynaf fynd i go-cartio yn Cibyn a'r rhai fengaf fynd i ddringo a llithro yn yr Hwylfan yng Nghaernarfon, a chyfarfod wedyn yn McDonalds am ginio bach.

Bydd yr Ysgol Sul yn cychwyn y flwyddyn newydd ar ddydd Sul, 7 Medi am 11 o'r gloch yn Eglwys y Waun. Mae croeso yno i blant y pentref.

Dymunaf ddiolch i'r Ysgol Sul am eu geiriau caredig a'r blodau a dderbyniais wrth imi ymddeol o'm dyletswyddau yno.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jane Ellen Roberts, Glasfryn, Stad Bro Waun, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd wedi iddi golli ei brawd mor sydyn. Diolch am y galwadau ffôn, y cardiau, y blodau a'r arian tuag at Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

ADREF O'R YSBYTY. Yn ystod yr haf gorfu i Dylan, mab bychan Rhian a Martin, Stad Tŷ Hen, fynd i gael profion yn Ysbyty Alder Hey. Gorfu i Iwan Ynyr, mab bach Valmai a Paul, Rhoslwyn, hefyd fynd i Ysbyty Gwynedd. Hefyd bu Mr Rol Williams, Ardwyn; Mrs Wendy Jones, Stad Dol Erddi; Gerald Rowlands, Bryn Golau a Haydn Jones, Rhandir Mwyn yn yr ysbyty. Croeso i chi i gyd adref, gan obeithio eich bod yn gwella o ddydd i ddydd.

Gobeithiwn hefyd bod Yvonne Rowlands, Bryn Golau, yn gwella wedi iddi ddioddef anhwylder i'w breichiau a'i dwylo.

CYDYMDEIMLO.

Daeth profedigaeth i ran amryw o deuluoedd y pentref ac estynnwn ein cydymdeimlan dwysaf â chi: Mrs Llinos Dinwiddy, Glyn Garth, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr Gerry Dinwiddy.

Bu farw Mr Bobby Williams, Clydfan. Cydymdeimlwn â'i briod, Ann, ei feibion a'i ferched ac â'i frodyr a'i chwiorydd yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Bert Smith, Stad Tref Eilian, ar golli ei wraig, ac â Margaret Pickering, ar golli ei llys-fam.

Bu farw Mr Frank Neaton, Nant y Mynydd, a chydymdeimlwn â'i ferch, Sue, a theulu Ty 'Rar yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

Cydymdeimlwn â Kenny Griffith a theulu Pine Cottage, yn eu profedigaeth hwythau o golli tad Kerry, Mr Gwilym Griffith o Lanrug. Tad a thaid annwyl iddynt.

Daeth inni y newyddion trist am farwolaeth David Evans (Preswylfa, gynt) un o hogiau y Waun. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei chwaer, Rhiannon a'r teulu, yn Ynys Môn.

Dyma siop John Awstin yn y gyfres Porc Peis Bach.

TYNNU I LAWR. Tynnwyd i lawr adeilad nodedig arall yn y pentref, sef Siop John Awstin. Daeth y siop yn adnabyddus drwy Gymru yn y gyfres deledu *Porc Peis Bach*.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn
Ffôn: 650218

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED. Pob dymuniad da i'r rhai sy'n cychwyn yn yr Ysgol Uwchradd a chroeso cynnes iawn i'r newydd ddyfodiaid i'n plith. Croeso hefyd i Mrs Sharon Ray o Gaernarfon a fydd â gofal am Flwyddyn 3 a 4.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Dymunir diolch o galon i bawb yn y pentref am eu haelioni tuag at yr elusen uchod, gan sicrhau swm sylweddol o £124. Diolch yn fawr.

GENEDIGAETH. Croeso mawr i Elin Haf, merch fach a anwyd i Iola a John o'r Felinheli, wyres fach i Nain a Taid, Carrog, Waen, sef Margaret a Gareth. Pob bendith i chwi fel teulu.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 7 Medi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Gobeithir cynnal gweithgaredd noddedig er budd Apêl y Capel gan aelodau'r Ysgol Sul a bydd croeso i rieni neu unrhyw un ymuno yn y gweithgaredd yn ystod y misoedd nesaf.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf ac Awst a'r enillwyr lwcus oedd:

Gorffennaf: Jean Roberts, Treflys; Elinor Williams, Bryn Rhydd; Osian Dafydd, Sycharth.

Awst: Rhian Roberts, Penygroes; Evie Jones, 3 Bryntirion; Anwen Huws, Carmel.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y Ras Peli, gwnaed elw da er budd rheoli'r Neuadd. Yr enillwyr oedd Cai Larsen (128); Tom Williams (141); Catrin Jones (21). Y gweithgaredd nesaf fydd Noson Wasael ac Ocsiwn Addewidion ar 17 Rhagfyr.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod Bentref eleni ym mis Tachwedd. Edrychir ymlaen am eisteddfod lwyddiannus a bywiog fel y llynedd. Bydd yr ymarferion yn cychwyn yn fuan wedi i'r ysgol ailddechrau.

PRIODAS RUDDEM. Dymuna Ann a Dafydd, Sycharth, ddiolch o galon i Eurgain ac Ioan, Bedwyr a Lisa ac Osian, Sara a Gwydion Rhys am noson o ddathlu arbennig yng nghwmni'r teulu. Diolch hefyd i gymdogion a ffrindiau lu am y cardiau a'r anrhegion.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â'r Canon Tegid Roberts a'r teulu ym marwolaeth ei chwaer, Wena, o Fostyn, Sir y Fflint.

Dymuna Tegid, Nant a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar achlysur marwolaeth ei chwaer hynaf ar 22 Mehefin.

SIOE MÔN. Un sy'n llwyddiannus yn flynyddol gyda'i ieir yw Dilwyn Green. Llongyfarchiadau iddo gyda'i gywen sidan a enillodd 'y pencampwr' yn ei dosbarth.

ARHOLIADAU. Llongyferchir pawb yn y pentref ac yn y fro ar eu llwyddiannau yn yr amrywiol arholiadau. Pob bendith i'r rhai ohonoch fydd yn cychwyn ar eich Lefel A ac yn y colegau, a phob llwyddiant i'r rhai fydd yn cychwyn mewn swyddi newydd.

ROWND A ROWND. Dymunir diolch o waelod calon i Mr a Mrs Wager, Llythyrdy, Brynrefail, am eu ffyddlondeb am flynyddoedd maith a hynny yn wyneb tywydd garw ac afiechyd creulon ar brydiau, gan sicrhau papur newyddion i ni a hynny'n gynnar iawn yn y bore.

Ar ran y rhai hynny ohonom a dderbyniai'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, dymunwn ddatgan ein gwerthfawrogiad mawr i'r ddau, gan ddymuno pob bendith ac iechyd i'r dyfodol.

Diolch o galon, Mr a Mrs Wager, mae colled fawr ar eich ôl.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion gorau at bawb sy'n sâl yn y pentref, gan fawr obeithio y cawn Ha' Bach Mihangel i godi eich calon ar ôl yr haf gwlyb ofnadwy yma.

PÊL BONWS LOTERI. Llongyfarchiadau i chwi, Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, ar ennill y gystadleuaeth gyda'ch rhif lwcus – 9.

MAM FALCH. Ie, Barbara Brailsford, 11 Bryn Eglwys, yw'r fam falch, un sy'n ymhyfrydu yn llwyddiant ysgubol ei mab, David. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Brynrefail, a fo fu'n llywio'r cystadleuwyr beicio yn Bejing gan sicrhau 14 medal Olympaidd – 8 medal aur, 4 arian a 2 efydd.

Llongyfarchiadau mawr iddo a phob dymuniad da ar gyfer 2012.

BEICWYR DEWR. Dymuna Bedwyr, Dylan Edwin a Keith ddiolch o galon i'w teuluoedd, cymdogion a ffrindiau lu o Fro'r Eco a thu hwnt am y gefnogaeth a'r anogaeth gref a gawsant yn ystod eu Beicio Noddedig er budd Ymchwil Cancr ac Ymchwil yr Arennau. Bu'r ymateb tu hwnt i'w disgwyliadau a bu'r croeso yn Yr Harbwr yn goron ar y gwaith caled. Diolch i chwi oll. Bydd y nawdd ar agor hyd ddiwedd Medi.

CARNIFAL. Cafwyd Carnifal llwyddiannus iawn eleni eto gydag ymateb da i'r holl weithgareddau.

Dydd Sadwrn y Carnifal, sef 5 Gorffennaf, er gwaethaf cawod drom o law a'r orymdaith ar fin cychwyn o'r Cartref Nyrsio, buan iawn y ciliodd y cymylau a gwenodd yr haul am weddill y pnawn, gan sicrhau bwrlwm o gystadlu a digon o hwyl. Coronwyd Elin yn Frenhines y Carnifal.

I gloi'r wythnos cynhaliwyd Cymanfa Ganu lewyrchus iawn yn Eglwys Santes Helen, dan arweiniad Arwel Jones, ac eitemau clodwiw gan blant yr Ysgol Gymuned a Chôr Meibion Dyffryn Peris. Mor braf oedd gweld yr eglwys dan ei sang a chael canu'r emynau cyfarwydd a rhai newydd, gan wir godi'r galon.

Diolchir i bawb o'r pwyllgor ac i bawb a gefnogodd y gweithgareddau.

PLYGU'R ECO. Atgoffir chwi, ffyddloniaid, mai Penisarwaun sy'n plygu rhifyn Hydref o'r *Eco*, a hynny o **5.00 o'r gloch ymlaen yn Neuadd Santes Helen, nos Iau, 2 Hydref.** Erfynnir yn daer am gymorth gan eraill – dim ond rhyw awr neu ddwy o'ch amser y

LLWYDDIANNAU LU. Llongyfarchiadau i Driawd y Waun, sef John Eifion, Marina Bryn a Lois Eifion am gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant Agored yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Lois ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth o safon uchel ar y piano.

Bu'r gystadleuaeth Corau Mawr yn un hynod gyffrous gyda baton John Eifion yn sicrhau yr ail safle allan o saith i Gôr y Brythoniaid – a baton Annette yn dynn wrth ei sodlau yn cipio'r trydydd safle i Gôr y Traeth. Llongyfarchiadau mawr i chwi, deulu talentog.

Ai hwn yw Wil Coes Bren?

Genod y Tir – rhywbeth i ni feddwl amdano wedi'r codiad sylweddol ym mhris bwyd heddiw!

Hysbyseb gwych i'r rhaglenni dyddiol i blant bach Cymru.



Y Frenhines Elin a'i Gosgordd.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

HAF INDIAIDD. Wrth fyw mewn gobaith am Haf Bach Mihangel wedi glaw di-baid mis Awst, da yw edrych yn ôl i'r dydd Sadwrn olaf o Fehefin, pan gafwyd haul ym Mrynrefail i groesawu nifer o gyfeillion i ardd gefn brydferth Gweledfa – cartref Dafydd a Moira Ellis.

Te Mefus oedd yr achlysur, a hynny dan nawdd Menter Fachwen, yn ymwneud ag ymweliad merch o Kottayam, de-orllewin India. Penodwyd Shylu Chacko yn swyddog datblygu Prosiect Rhyngwladol Menter Fachwen ac fe'i noddwyd ar ei hymweliad â Dyffryn Peris gan Oxfam. Prif nod yr ymweliad oedd datblygu cysylltiadau, cyfathrebu ac ymwybyddiaeth rhwng y ddwy gymuned. Gwnaed hynny drwy gasglu dau gant o enwau i dderbyn cylchlythyrau o Kottayam – ond, efallai yn llawer mwy allweddol – sefydlwyd cysylltiadau rhwng ysgolion y ddwy gymuned.

Cafwyd nifer o weithgareddau yn y Dyffryn gan gychwyn o Gaffi EB's yn Neiniolen â Helfa Drysor, Ciniawau Cyri yng Nghwm-y-glo a Llanrug, yn ogystal â Meistrwers Cyri dan arweiniad Shylu.

Gan Shylu hefyd cafwyd noson i'r merched mewn gwers ar wisgo Sari yn ogystal â rhannu gwybodaeth am ddaearyddiaeth, diwylliant a thraddodiadau ei thalaith gartref

Da yw deall fod swyddfa yn nhref Kottayam gyda enw Menter Fachwen uwch y drws ffrynt – tystiolaeth bendant o'r berthynas gydag ardal yr *Eco*. Gyda blachder hefyd o waith Menter Fachwen yn y Dyffryn, gosodwyd patrwm o weithio er budd unigolion a chymuned arall yn yr India bell.

Yn ystod yr holl weithgareddau casglwyd swm sylweddol o arian tuag at y prosiect yn Kottayam.

Fel Cadeirydd Menter Fachwen, carai Dafydd Ellis ddiolch am yr holl gefnogaeth a gafwyd a charai Moira hefyd ddiolch am y gefnogaeth i'r Te Mefus yng Ngweledfa.

HEN WYNEBAU. Fel y cofnodwyd mewn rhifynnau diweddar o'r *Eco*, bu dipyn o chwilfrydedd ynglŷn â'r diweddar Barch Richard Jones (Glan Alaw) gan nifer o'i ddisgynyddion. O fewn ychydig wythnosau dwy ferch i un arall o gyn-weinidogion Brynrefail oedd yn troedio'r pentref. Ar ddamwain hollol tra ar ei gwyliau yn y fro y gwelodd Gwenda (Davies gynt) – merch ieuengaf y diweddar Barch a Mrs D.W. Davies hysbyseb am y Te Mefus oedd i'w gynnal yng Ngweledfa. Wedi cysylltu â'i chwaer, Janet, o'r Fflint, penderfynodd y ddwy droi i mewn. Pleser digymysg i'r ddwy oedd cael eu tywys drwy ystafelloedd eu hen gartref ac eistedd yn yr ardd yn hel atgofion â nifer o'u cyfoedion – plant ifanc iawn i gyd pan adawodd y teulu y pentref yn 1948.

DIOLCH. Dymuna Jennie Hughes, Bryn Parc, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth ac wedi dod gartref – yr ymweliadau, cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau calonog i Nia Griffith, un o wynebau cyfarwydd y Caban o'r cychwyn, pan oedd yn dal swydd fel Rheolwr Busnes ac sydd yn awr yn un o'r Cyfarwyddwyr, ar ei llwyddiant yn ennill gradd M.Sc yng Ngholeg Prifysgol Bangor. Gyda golwg i'r dyfodol bydd yn parhau â'i hastudiaethau ar gyfer doethuriaeth.

DIOLCH. Fel pentrefwyr, rwy'n siŵr y carem ddiolch yn gynnes iawn i Colin a Dorothy Wager, Y Swyddfa Bost, am y gwasanaeth cyson a gafwyd ganddynt dros y 35 mlynedd diwethaf yn cludo ein papurau dyddiol i drothwy'r drws. Mae'n bur debyg nad yw yr hynaf yn ein plith yn cofio amser heb y gwasanaeth hwn yn y pentref ac felly roedd 19 Gorffennaf eleni yn dod â phennod hanesyddol i ben.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. CYMDEITHAS Y CAPEL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Caban nos lau, 5 Mehefin. Cadeirydd y noson oedd Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, a dechreuwyd y noson gyda myfyrdod dan ei harweiniad.

Ymhellach croesawodd pawb i'r cyfarfod, ynghyd â'r siaradwr gwadd o blith yr aelodau, sef Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Dan y testun 'Golau cannwyll mewn oes o neon' mwynhawyd ymdriniaeth diddorol ar fywyd a gwaith Y Ficer Pritchard. Cafwyd darlun o ardal Llanymddyfri, gyrfa'r Ficer ynghyd â detholion amrywiol o'i waith allan o *Cannwyll y Cymry* oedd yn dangos ei arddull unigryw a'i allu fel cyfathrebwr arbennig i Gymry ei gyfnod. Diolchwyd yn gynnes iawn am noson ddifyr gan y cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, 4 Medi. Y siaradwr gwadd fydd Dafydd G.Ellis, Gweledfa, ar y testun 'Pontydd' gyda Verna Jones, Meillionen, yn cadeirio'r noson.

PROFEDIGAETH. Colled enbyd i deulu, eglwys a chymuned fu ymadawiad y ddiweddar Dilys Wyn Morris ar 29 Gorffennaf yn 51 mlwydd oed. Dioddefodd salwch blin yn ddirwgnach am fisoedd ac roedd ei cholli o'r oedfaon yn gadael bwlch amlwg.

Magwyd hi ar aelwyd grefyddol Ty'n Buarth a bu ei ffyddlondeb i Gapel Brynrefail, yr Ysgol Sul a'r oedfaon o'i phlentyndod i'r misoedd olaf yn un clodwiw. Nid oedd yn un a chwenychai waith cyhoeddus ond, gyda phopeth arall, roedd yno yn ddibynadwy a thrylwyr yn ysgwyddo'r baich – dyletswyddau fel trefnu blodau'r cysegr, paratoi elfennau'r Cymun, ei gofal am lyfr cyfrifon y Weinidogaeth a phopeth ymarferol yr oedd galw amdano. Mae'r golled i ni fel eglwys yn anfesurol ond mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad dwys yn bennaf y dyddiau hyn gyda'i phriod, Geraint, a theulu Ty'n Buarth yn eu colled enfawr a'u hiraeth am un mor gymeradwy. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Santes Helen, Penisarwun, ac yn dilyn yn y fynwent.

Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth, i swyddogion Eglwys Santes Helen a phawb gymerodd ran yn y gwasanaeth. Dymunant hefyd gydnabod caredigrwydd staff y Caban, Brynrefail, a Becws Cwm-y-glo, yr Ymgymerwr ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Dilys ac a rennir rhwng Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon.

OEDFAON MEDI.

7: 5.30: Parch Gwilym Parry, Llanrug
14: 5.30: Parch Gwenda Richards, Caernarfon
21: 5.30: Mr Glyn Owen, Llanwnda
28: 1.00: Parch W.R. Williams, Y Felinheli.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

Caffi Caban

ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban cyf

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

O'R YSBYTY I YSBYTTY. Ar ôl cyfnod o salwch yn yr ysbyty, mae Cledwyn Jones adref unwaith eto.

COESO. Perchennog newydd Tryfan yw Siwan Jones, gynt o Landwrog, sy'n weithwraig gymdeithasol gyda Chyngor Gwynedd.

SIWRNE SAFF? Ar ddiwrnod olaf mis Mehefin gwelsom y cerbyd arbennig ar ei safle yng nghanol y pentref – am 30 munud!

HEFYD YN GWELLA. Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, mae Owie Williams, Tai Glangwna, hefyd i'w weld yn y pentref ac yn y Capel.

MIRI HAF. Gyda'r tywydd yn braf yn y prynhawn, cefnogaeth dda a chyfeillgarwch, cafwyd amser da ar ddydd Sadwrn, 12 Gorffennaf yn y Miri Haf. Kate 'Syrcas/Circus' oedd yr adloniant i bawb ac roedd yr holl blant a phobl ifanc yn awyddus i rasio ar ddwy goes, tair coes neu mewn sach. Doedd neb yn cyrraedd safon y 'pâr' eleni yn y golff yn y Roial St Dafydd ac o flaen y gôl roedd y gystadleuaeth yn frwd. Roedd y ddarpariaeth a baratowyd o'r gegin yn flasus iawn.

Diolch i bawb am drefnu, darparu stondinau, gwario eu pres a mwynhau. Fel canlyniad, codwyd £215 tuag at gostau Canolfan y Capel. Yn ogystal mae rhoddion wedi digolledu Cymdeithas y Cae Chwarae o'r swm o £85.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan Waunfawr ar 16 Gorffennaf. Roedd y Cyng. Clive James yn bresennol. Yn anffodus, nid oedd enw wedi'i gynnig am y sedd wag yn Ward Caeathro.

Roedd y cynllun am gyfyngiadau parcio pellach yn dal yn nwylo Cyngor Gwynedd. Gan fod gwelliannau wedi eu gwneud i gyflwr un cae, y gordyfiant wedi'i dorri ger y gamfa a cherdded wedi bod ar y llwybr, mae'r llwybr cyhoeddus rhwng Llety ac Ysbytty rŵan yn addas i'w gerdded.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo codi stabl ym Mhlas Glanrafon. Gan fod yr arwyddion enw strydoedd, 'Tai Glangwna' a 'Caeathro Bach', yn simsan ac aneglur, gofynnir i Gyngor Gwynedd eu hatgyweirio. Hefyd mae'r Cyngor am ofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau arwydd rhybudd swyddogol dwyieithog ynglŷn â cherbydau'n troi i mewn i Stad Ddiwydiannol Peblig.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro mis Gorffennaf oedd: £40: W. E. Hughes, Cefn Gwern; £25: G. Bebb, Bryn Mair; £15: Dr. H. Jones, Maes-y-Coed; £5: L. Williams, Refail.

MIRI HAF. Hoffai Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro ddiolch i bawb oedd yn gyfrifol am sicrhau Miri Haf llwyddiannus dros ben eleni. Roedd mwynhad mawr i blant o bob oed!

SEDD WAG – CYNGOR CYMUNED. Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Cymuned Waunfawr sedd wag, un o'r ddwy sydd yn Ward Caeathro. Yng nghyfarfod mis Medi, bydd y Cyngor yn cyfethol unigolyn i lenwi'r sedd. Onibai bod enw o blith etholwyr Ward Caeathro yn cael ei roi ymlaen, bydd y Cyngor yn dewis etholwr o Ward Waunfawr. Felly, pe bai'r unig aelod etholedig o Ward Caeathro yn absennol o gyfarfod yn y dyfodol, ni fydd llais i siarad dros ardal Caeathro yn bresennol o gwbl. Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â'r Cynghorydd Clive James, Hafan (677438).

GYRFA DRAMOR. Dymunwn yn dda i Mari Gwenllian Roberts, Cefn Rhos Isaf, sydd bellach wedi cyrraedd Fukushima, Siapan, lle bydd yn byw a gweithio am flwyddyn. Graddiodd mewn Economeg eleni ym Mhrifysgol Sheffield a chafodd swydd ar raglen J.E.T. (Saesneg ar gyfer Mentergarwch) i ddysgu Saesneg mewn tair ysgol wledig.

TŶ NEWYDD. Enw'r tŷ newydd o flaen Cefn Rhos yw Gwêl y Grug. Mae Dan, Tinc a Llion (disgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen) wedi symud yno o'r Bontnewydd. Croeso mawr iddynt i gymuned Caeathro.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd yr oedfaon canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Medi:

7: 11.00: Ysgol Sul
2.00: Mr Dafydd Iwan
14: 11.00: Ysgol Sul
21: 11.00: Ysgol Sul
2.00: Parch Gwenda Richards
28: 11.00: Ysgol Sul.

Croeso i bawb ymuno yn yr addoliad a'r Ysgol Sul.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Awst oedd: £40: (91) Nia Hughes, Rhyddallt Bach; £25: (26) Jean Williams, Llety; £15: (60): Brenda Tweedale, 14 Erw Wen; £5: (52) Mike a Mair, 10 Bryn y Gof.

FANDALIAETH. Yn anffodus, mae rhai pobl ifanc wedi torri i mewn i'r cwt ar y cae pêl-droed ac wedi difrodi eiddo'r gymuned – a brynwyd ar draul llafur a rhoddion y gymuned. Mae'r Heddlu wedi'u hysbysu a byddant yn galw heibio'r cae o dro i dro.

Pe bai unrhyw un yn darganfod neu dystio i ddigwyddiadau tebyg eto, gofynnir iddynt ffonio'r Heddlu yn uniongyrchol ar 0845 607101.

SYMUD AELWYDYDD. Ar ôl naw mlynedd yn Erw Wen, mae Jason, Meinir a'r plant yn symud i Fae Colwyn. Rydym yn dra diolchgar iddynt am eu cyfraniadau niferus i'r gymuned yng Nghaeathro. Bydd Jo a Hariette yn mudo o Dai Glangwna ar draws y stryd i stad Erw Wen – *déja vu*. Rwy'n siŵr y bydd hiraeth am Seaview a Nymbar 2 arnynt.

CYFARFOD BLYNYDDOL. Bydd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn cael ei gynnal am 8.00yh yn Lolfa Tafarn Bryngwna ar nos Lun, 15 Medi. Bydd cyfle i unrhyw etholwr yn ardal Caeathro fynychu a chymryd rhan yng ngweithgarwch y pwyllgor yn y deuddeng mis nesaf.

Oherwydd ymadawiad y Trysorydd o'r ardal, mae angen gwirfoddolwr ar gyfer y swydd bwysig hon – swydd sy'n llawer haws i ymgymryd â hi na mae'r teitl yn awgrymu! Wrth gwrs, bydd cyfle i unrhyw etholwr gynnig ei hunain am swyddi'r Cadeirydd neu Ysgrifennydd neu fel aelod o'r pwyllgor.

www.silverstarholidays.com
13 Y Maes, Caernarfon.
LL55 2NF 01286 672333
GWYLIAU Seren Arian

Pris £169
Atodiad Sengl £24
Cyngerdd Dathlu Deunaw
Ysgol Glanaethwy
Canolfan Mileniwm, Caerdydd
28-30 Tachwedd, 3 Diwrnod
2 Noson Cinio Gwely a Brecwast
Gwesty'r 'Holiday Inn' Casnewydd
Yn cynnwys bws a tocyn i'r cyngerdd

Y bechgyn hynaf yn ymryson yn y Miri Haf yng Nghaeathro.

Rhan o'r dorf wrth y stondinau yn y Miri Haf, Gorffennaf 12fed.

CHWILOTA

COSTAU AC ARFERION CLADDU

Soniais rai misoedd yn ôl am rai o'r cymdeithasau a sefydlwyd ym mhlwyfi'r ardal i gael gwasanaeth elorgerbyd cyhoeddus. Byddai gwahanol unigolion a theuluoedd o'r ardal yn talu swm penodol yn flynyddol i sicrhau'r hawl ar ddefnydd yr elorgerbyd pe byddai achos o farwolaeth yn y teulu. Drwy law Miss Ceri Foulkes, Deiniolen, cefais gopi o reolau elorgerbyd *'rhan uchaf plwyf Llanddeiniolen'* (soniais eisoes am rai ardal Penisarwaen.), a hynny am 1902.

Yr oedd *'cylch ei gwasanaeth... yn cyrraedd o Ddinorwig a'r Fachwen i'r Ysgoldy'*, ac *'ni dderbynnir neb yr hawl ohoni oni bydd yn byw o fewn y cylch.'* Yr oedd angen talu swm o bum swllt am yr hawl i'w defnyddio.

Mae'r rheolau eraill hefyd yn dra diddorol. Roedd hawl gan aelodau i ddefnyddio'r elorgerbyd i gario'r marw allan o'r plwyf i'w gladdu, ond roedd angen dychwelyd yr elorgerbyd o fewn y diwrnod. Roedd hyn yn cyfyngu cryn dipyn ar bellter y teithio felly, o gofio mai ceffyl fyddai'n tynnu'r elorgerbyd.

Yn yr un modd, pe bai un o deulu'r aelodau yn marw oddi allan i blwyf Llanddeiniolen, ac angen ei gladdu yn ei blwyf genedigol, yna unwaith eto, roedd hawl i fynd â'r elorgerbyd i gyrchu'r marw ar yr amod mai o fewn un diwrnod y gwneid hynny. Ond roedd posibl gwneud eithriad i'r rheol hon gyda chaniatâd y pwyllgor. Dychmygwch yr angen i alw pwyllgor ynghyd i drafod a oedd hawl gan unigolyn arbennig i gael defnydd o'r elorgerbyd am fwy na diwrnod er mwyn cyrchu corff yn ôl i'r plwyf.

Rheol arall a ddangosai sut yr oedd y gymdeithas yn y cyfnod hwn yn gofalu am y rhai llai cefnog oedd yr hawl a roddid i *'wragedd gweddwon sydd yn derbyn cymorth plwyfol, i gael gwasanaeth yr elorgerbyd am swllt.'*

Mae'n amlwg fod 'tender' yn cael ei gosod allan i fod â gofal am yr elorgerbyd. Mae'r rheol hon yn nodi fod angen *'ei gweithio a'i chadw, a gofalu yn briodol am dani, yng nghyd â'r gêr perthynol iddi.'* Roedd y sawl a gâi'r tender yn cymryd gofal o'r elorgerbyd am dair blynedd.

I'r rhai ohonoch sy'n cadw ôl-rifynnau o'r *Eco*, mae llun ac adroddiad byr yn rhifyn 10, ('nôl yn 1975) o John Harris, 'Refail, Clwt y Bont, gyda'r elorgerbyd yn cael ei thynnu gan ei geffyl, 'Comet'. Enw braidd yn anffortunus i geffyl a dynnai hers! Roedd yr hers ar yr elorgerbyd yn un wydr, gyda'r geiriau 'yr Arglwydd yw fy Mugail' wedi ei ysgythru arni. Dros y ffordd i Tŷ Mawr roedd lleoliad y cwt hers. Yn ôl yr adroddiad yn yr *Eco* yn 1975, arferid gwisgo'r ceffyl a'r hers mewn rubannau duon, ac fe'i defnyddiwyd am y tro olaf gyda cheffyl ym mis Awst 1938.

Mae'r lluniau yn dangos derbynneb gan John Harris, Clwt y Bont, am wasanaeth yr elorgerbyd ym mis Mawrth 1934 a mis Mehefin 1935. Sylwch fod y prisiau yn amrywio: punt a phum swllt yn 1934, ond dim ond deuddeg swllt flwyddyn yn ddiweddarach.

From John Harris — Deiniolen 1934.

Am wasanaeth Elorgerbyd £1-5-0

Settled Mar. 7th 1934. With thanks John Harris

From John Harris Clwt-y-Bont — Deiniolen June 15th 1935.

Am wasanaeth Elorgerbyd - 12/-

Settled June 15th 1935. With thanks John Harris

Gofalu am yr elorgerbyd yn unig a wnâi John Harris. Yr ymgymerwr oedd E. W. Rowlands, London House, Deiniolen, a hysbysebai ei hun fel ironmonger, joiner ac undertaker. Mae'r bil a ddangosir (chwith) yn rhoi gwybodaeth am gost claddu yn 1934. Yr arch oedd y gost fwyaf o ddigon. Cymharwch bris honno – naw punt, a hynny ar ôl deg swllt o ddisgownt – â chostau'r cludo, oedd yn llai na phedair punt, gan gynnwys dau gar (i'r teulu agos, mae'n debyg), car saith sêt o Lanberis, a bws 24 sêt. Roedd hwn yn amlwg yn gynhebrwng mawr.

Monumental Works, Deiniolen, Caernarvon. June 20th 1939

Dr

OWEN ELLIS, Monumental Mason, Carver & Engraver.

Sept 1938	To lettering.	£2	3	6
	Refixing.		14	6
	New surface concrete		8	6
	2 Bags of White Gravel		16	0
	Painting railings.		2	0
		£4	4	6
Oct 18 1938	Received on A/c Ten shillings		10	0
	Received Ten shillings		10	0
March 30 1940	Received Ten shillings		10	0

Y gost ar ôl y cynhebrwng a'r claddu oedd gosod carreg ar y bedd. Un o'r rhai oedd yn gyfrifol am hynny yn Neiniolen oedd Owen Ellis, sy'n galw ei hun yn *'monumental mason, carver and engraver'*. Oherwydd amgylchiadau economaidd yn y cyfnod cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd y teulu'n aml iawn yn talu am y garreg ac am ei gosod mewn rhandaliadau. Mae bil Owen Ellis wedi ei ddyddio ym mis Mehefin 1939. Roedd y gwaith llythrennu ar y garreg yn costio dwy bunt tri swllt a chwe cheiniog, a gweddill y gost oedd ailosod y garreg ar ôl y claddu a thwtio o amgylch y bedd, gan gynnwys peintio'r rheiliau. Mae'r arfer o gael rheiliau o amgylch y bedd wedi ei ddiddymu mewn amryw, os nad y cyfan o fynwentydd bellach, er mwyn hwyluso'r gwaith o dorri'r gwair o fewn y fynwent.

MONUMENTAL WORKS, DEINIOLEN, CAERNARVON. Feb 18th 1944

Dr. to—

OWEN ELLIS

Memorials in Granite, Marble & Slate. Neatly & Promptly Executed.

9/e	Re Work on Grave at Hospital.	£4	4	6
	Paid by instalments up to July 1942	£2	15	0
	Balance overdue.	£1	9	6
1-12-1952	Paid. [illegible]			

Cyfanswm y gost oedd pedair punt, pedwar swllt a chwe cheiniog. Roedd y teulu yn talu am y gost fesul chweugain ar y tro, a hynny, mae'n amlwg yn ôl eu gallu. Roedd yn fis Chwefror 1944 ar y ddyled yn cael ei chlirio. Sylwch hefyd fel y mae biliau Owen Ellis erbyn hynny hefyd yn dipyn crandiach na'r rhai cynnar. Roedd erbyn hyn yn cynnig *'memorials in granite, marble and slate'*. Roedd y gwaith o goffáu'r meirw yn amlwg yn talu!

Ar wahân i'r gwŷr busnes y cyfeirir atynt, mae enwau'r teuluoedd wedi eu diddymu o'r gwahanol filiau a derbynebau.

(Parhad ar y dudalen nesaf)

CEMENT. BRICKS. MORTAR. LIME.

London House, Deiniolen, Caernarvonshire. March 7 1934

To E. W. Rowlands, IRONMONGER, JOINER & UNDERTAKER. WREATHS MADE TO ORDER.

To oak Coffin & Shroud Silver fittings & Raised lid	£9	10	0
100 Bricks	1	0	0
For Hearse		5	0
2 Cars at	1	5	0
1, 7 seater c[illegible] From [illegible]		14	6
1 Bus 24 Se[illegible]	1	5	0
	£13	19	6
Dis on Coffin		10	
	£13	9	6

Y Rhyddfrydwr Cyntaf

Pe bai rhywun yn gofyn am enw'r rhyddfrydwr enwocaf o ardal bro'r *Eco*, mae'n debyg y byddai llawer yn enwi'r cyn-aelod seneddol dros y rhyddfrydwyr yn Sir Gaernarfon, sef Goronwy Owen, a fu'n byw am gyfnod yn Llwyn y Brain, Llanrug (ble mae gwesty Seiont Manor heddiw). Ond mae rhywun llawer enwocach wedi ei eni a'i fagu yn Llanrug, er mai prin y byddai unrhyw un o'r fro, na hyd yn oed o fewn y Blaid Ryddfrydol, yn adnabod yr enw heddiw. A'r enw hwnnw yw Rheinallt Jones.

Fe'i ganed yn 1884 yn fab i'r Parch John Eiddon Jones, gweinidog gyda'r Methodistiaid yn y Capel mawr, Llanrug, ac fe'i magwyd yn Llys Eiddon. Roedd ei dad yn flaenllaw iawn gydag addysg yn y plwyf, ac ef oedd ysgrifennydd cyntaf y bwrdd ysgol. John Eiddon Jones hefyd oedd ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas ddirwestol Gwynedd. Roedd yn aelod o Goleg y Tonic Sol-ffa ac yn arholwr. Cychwynnodd yr eisteddfod leol yn y pentref ac yr oedd yn aelod gwerthfawr o gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyna'r cefndir y meithrinwyd Rheinallt ynddo tra'n tyfu i fyny yn Llanrug.

Erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf roedd Rheinallt Jones wedi mudo i dde Affrica. Yno, fe'i hetholwyd i'r Senedd, ac yr oedd yn un o sefydlwyr a Chyfarwyddwr cyntaf y Sefydliad Cydberthynas Hiliol. Bu'n bennaeth y Sefydliad hwnnw am bron i ugain mlynedd, o 1929 hyd 1947. Rhoddwyd iddo'r enw Mothusi gan y brodorion lliw lleol; enw sy'n golygu 'yr un sy'n cynorthwyo', a hynny oherwydd ei waith diflino i hybu llês cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol pobl groenddu De Affrica. Roedd yn ysbrydoliaeth i ail genhedlaeth o ryddfrydwyr, megis Alan Paton a Helen Suzman. Rhoddwyd coffa amdano fel a ganlyn: *'Rheinallt Jones shall be named as one of those great men the African people will ever remember with gratitude.'* Yn ddiweddar, cyhoeddwyd llyfr o'i hanes, a dyna'r teitl ar y llyfr hwnnw: *The First Liberal.*

Rhyfedd meddwl fod plant ysgol yn Ne Affrica yn gwybod mwy o hanes y bachgen a fagwyd yn Llanrug na neb o'r fro hon.

Enwau Llwybrau

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r awgrym yn y rhifyn diwethaf y dylid cael casgliad o enwau llwybrau'r fro, ac ni wn am unrhyw un a gerddodd Lwybr y Carw o'r Nant Ucha i Gwm Idwal. Ond roedd gan bob un ohonoch esgus digonol – gan fod Awst wedi bod mor wlyb, fu fawr o gyfle i grwydro llwybrau!

Teulu'r Clossiaid

Do, fe fu aduniad yn y Nant, a diolch am y gwahoddiad i gael bod yno'n rhannu'r achlysur, er nad oes dropyn o waed y Clossiaid yn fy ngwythiennau. Mae'r hanes yn llawn ar dudalen arall o'r rhifyn hwn.

Melin neu Grochendy?

Daeth y llun hwn i'm meddiant yn ystod yr haf, sef, a rhoi iddo'i enw llawn: 'The Welsh Northern Potteries'. Methais â'i ganfod mewn unrhyw gyfeirlyfrau masnachol, ac yn sicr, nid oedd mewn bodolaeth yn 1901, gan mai melin flawd oedd bryd hynny. Holais amryw â chysylltiadau â Phontrug, ond yr un oedd yr ymateb bob tro – neb yn cofio!

Felly, rhowch wybod ar fyrder i mi am y crochendy hwn yn y Felin Wen, Ponrug, os gwelwch yn dda.

Anfonwch eich ymholiadau neu bytiau o wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.



UN FUNUD FACH

ARA

Oedd, roedd gen i bethau gwell i'w gwneud na threulio awr neu ddwy yn pori'r We am Reslwr Greco-Rufeinig o Sweden! Cofiwch chi, doeddwn i ddim yn gwybod mai dyna oedd Ara Abrahamian. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod mai dyna oedd enw'r dyn. Y cwbl a wyddwn oedd bod rhywun a enillodd fedal efydd yn Beijing wedi gadael seremoni cyflwyno'r medalau ar ei hanner a thaflu ei fedal ar lawr.

Roedd Abrahamian wedi gwylltio am ei fod yn credu iddo gael cam gan y beirniaid. Roedd o a Phwyllgor Olympaidd Sweden yn cyhuddo'r beirniaid o ffafrio'r Eidalwr a'i curodd yn y rownd gynderfynol. Roedden nhw'n cyhuddo FILA, y mudiad sy'n rheoli'r gamp, o fod eisiau i Eidalwr ennill y fedal aur. Wedi'r brotest, cyhoeddodd Ara ei fod yn ymddeol. Cafodd ei ddiarddel gan Bwyllgor y Gemau Olympaidd. Ac ers hynny, mae'r Llys Cymodi Chwaraeon wedi datgan bod y beirniaid ar fai ac y dylai FILA roi ei dŷ mewn trefn. Difyr dros ben.

Enillwyd 968 o fedalau yn Beijing, os yw fy sỳms i'n gywir. (Ac os nad ydyn nhw, plîs, peidiwch â ffonio acw i ddweud!).

Cafwyd perfformiadau cofiadwy a gosodwyd safonau newydd mewn amryw o chwaraeon. Ac eto, fe hoeliwyd fy sylw ar ddyn na chlywais erioed amdano a champ nad oes gennyf y diddordeb lleiaf ynddi. Reslo Greco-Rufeinig? A'r cyfan am fy mod i'n lecio sgandal ac am gael gwybod am fisdimanars, ac am bobl yn cael eu cosbi a'u diarddel.

Dydi hi'n drist bod yna rywbeth amdanom sy'n gwneud i ni hoffi sgandals o bob math? 'Glywsoch chi be wnaeth hwn?' 'Gredwch chi be ddeudodd hon?' 'Goeliwch chi be maen nhw wedi ei wneud?' Mae ein clustiau'n cosi, a ninnau am gael gwybod y manylion i gyd, am enwogion ac anenwogion fel ei gilydd. Cefais gip sydyn ar brotest (neu stranc) y reslar o Sweden ar y teledu, ac roedd rhaid gwybod mwy. A mwyaf piti, yn aml iawn dim ond yr awgrym lleiaf sydd ei angen arnom fod rhyw ddrwg wedi ei wneud, a fedrwn ni ddim bod yn fodlon nes cael yr hanes i gyd.

Mae'r cyfryngau'n deall y duedd hon sydd ynom i ddarllen am helyntion pobl ac i wylio pob math o ddrygioni. Mae'r Iesu'n gwybod am ein tueddiadau hefyd, ac yn ein gweld ni'n ildio o hyd ac o hyd i'r demtasiwn i fwynhau'r pethau gwaethaf. Ond mae hefyd yn maddau pob llithriad a phechod i bawb sy'n cydnabod ei wendid a'i fethiant.

JOHN PRITCHARD

Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Rwyf am ddechrau y mis hwn yn y flwyddyn 1908, union gan mlynedd yn ôl.

28 Awst 1908: Priodi Albert Owen, Llwythwr.

Ac nawr mae angen symud ymlaen i'r flwyddyn 1927:

1 Ionawr, 1927: Claddu Robert Parry, Turner Street.

27 Ionawr: Claddu Jack Jones.

28 Ionawr: Priodi John W. Evans, Pen Bont, yn Capel Gorffwysfa.

7 Mawrth: Marw Mary Williams, Coed Mawr.

21 Mawrth: Hugh Evans, Blaen y Ddôl, yn cael ei ladd trwy syrthio o dop ei fargen i lawr yn Sinc Muriau.

2 Ebrill: Claddu Hugh Roberts, Capel Graig.

11 Mai: Claddu mam Harry Parry, Llainwen.

21 Mehefin: Priodi John C. Jones, ac hefyd Dr Jones, sydd gyda Dr Roberts.

28 Mehefin: Priodi Gwylim, Tŷ Newydd Bach.

27 Hydref: Claddu John W. Evans, Pen Bont.

31 Rhagfyr: Claddu Ellis M. Williams ac hefyd marw mam Lizzie Catherine.

R. ELWYN GRIFFITH

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

YSGOL DOLBADARN

Hanes y Staff. Ar ddiwedd y tymor ffarweliwyd â Miss Thelma (Mrs Thelma Griffiths), sy'n ein gadael gan ei bod wedi ei phenodi i swydd llawn amser yn Ysgol Bethel. Dymunwyd pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

Ar ddechrau Gorffennaf croesawyd Mrs Bethan Rhys yn ôl o'i habsenoldeb mamolaeth a Mrs Manon Davies ar ôl derbyn llawdriniaeth. Rydym yn dra diolchgar i Mrs Rhian Jones a Miss Ffion Owen am ofalu am eu dosbarthiadau dros gyfnod eu habsenoldeb. Mae cyfnod Mr Rhys Jones yn yr ysgol hefyd wedi dod i ben a dymunwn y gorau iddo yntau yn ei gwrs coleg. Diolchwn iddynt am eu holl waith caled gyda'r plant.

Llongyfarchiadau i Miss Ilid Humphreys sydd newydd dderbyn gradd M Phil gan Brifysgol Cymru.

Mae Miss Kelly Jones wedi bod yn dilyn hyfforddiant yn y gweithle yn yr ysgol, dan gynllun Hyfforddiant Gwynedd, dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar derfyn y flwyddyn Ysgol derbyniodd wobr Myfyrwraig y Flwyddyn. Llongyfarchiadau cynnes iddi ar ei llwyddiant. Edrychwn ymlaen i'w chroesawu yn ôl ym Medi fel y Cymhorthydd Dosbarth yn y Meithrin.

Blwyddyn 6. Pob dymuniad da i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Brynrefail. Cofiwch alw i'n gweld.

Capteiniaid Padarn yn dal y gwpan. Jamie Cleary gafodd y mwyaf o farciau ymhlith y bechgyn efo Daniel Davies yn ail.

Newyddion Chwaraeon. Buom yn ffodus i gael tywydd sych i'n mabolgampau ar 15 Gorffennaf.

Mae dwy ferch yn rhannu tlws y genethod, sef Kerry Meek a Rebecca Ellis. Catrin Davies enillodd ras y mamau ac Adrian Roberts ras y tadau.

Cafwyd Gala Nofio lwyddiannus ar derfyn y tymor. Padarn oedd y tŷ buddugol eleni. Enillwyd medal aur y bechyn gan Danny Jones efo Gareth Pritchard yn ail. Sioned Owen oedd y ferch uchaf ei marciau ac Elinor Lampard yn ail.

Capteiniaid y Gala Nofio.

Cyfeiriannu ym Mharc Padarn. O dan arweiniad Mrs Roberts-Jones mae'r ysgol wedi cyflwyno gwersi cyfeiriannu i blant yr Adran Iau eleni. Ar derfyn y tymor fe gynhaliwyd diwrnod o gyfeiriannu. Enillwyr y gystadleuaeth oedd Jamie a Ryan o flwyddyn 5, ond roedd tri thîm arall wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus hefyd.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Mrs Roberts am drefnu gweithgaredd mor llwyddiannus ac yn gobeithio y bydd yn ddigwyddiad blynyddol.

1938—2008. Y tymor hesaf bydd y plant hynaf yn gwneud llawer o waith yn seiliedig ar y ffaith bod yr ysgol yn 70 oed. Byddant yn ymchwilio i hanes yr ysgol a'r ardal dros y 70 mlynedd diwethaf.

Os gwyddoch am unrhyw un oedd yn yr ysgol adeg ei hagor, neu os oes gennych luniau neu wybodaeth am hanes yr ysgol neu'r ardal ar y pryd, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda.

Ffair Haf. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Ffair Haf. Cafwyd noson hwyliog iawn.

Un o enillwyr y wisg ffansi oedd Lilly Cousins ac roedd y beirniaid yn edmygu'r ffordd yr oedd wedi ailgylchu popeth i greu ei gwisg ddeniadol. Roedd rhai rhieni wedi gwisgo i ddal llygad y beirniad hefyd, ond heb fod yng ngolwg y camera!!

(Parhad ar y dudalen nesaf)

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Enillwyd y gystadleuaeth fflapjacs gan Cadi Panton, efo Scott Williams yn ail a Jessica Pritchard yn drydydd. Mae'r beirniaid yn dal i geisio colli'r pwysau.

Tîm Seiriol enillodd y gystadleuaeth pêl-rwyd a gynhaliwyd ar y noson ar y cwrt chwarae bob tywydd sydd newydd ei gwblhau ger y Ganolfan.

Trip Llangollen. Cafodd Blynyddoedd 5 a 6 ddiwrnod difyr iawn ar ddiwrnod y plant yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cawsant gyngerdd gan ddawnswyr a chantorion o sawl gwlad a chyfle i wario eu harian yn y gwahanol stondinau fel y gwelwch o'r llun.

Erthyglau gan ddisgyblion yn dilyn rhai o weithgareddau'r tymor.

Yn ôl i'r Gorffennol

DYDD IAU Mehefin 12 aeth plant blwyddyn 6 Ysgol Dolbadarn i dŷ Kate Roberts, Caer Gors yn Rhosgadfan. Buom ni'n gweithio efo Mrs Angharad Tomos (sydd wedi ysgrifennu *Rala Rwdins*) gan fynd yn ôl i'r gorffennol i ysgrifennu am y dywysoges Gwenllian. Dywedodd Mrs Tomos,

'Roedd yn bleser cael gweithio efo Bl.6 oherwydd roedd pawb wedi bihafio ac roedd pawb yn mwynhau.'

Aethon ni hefyd efo Miss Davies (awdures *Cysgodion y Coed* a chwaer Mrs Rhys) i dŷ Kate Roberts i weld sut roedd pethau wedi newid ers amser Kate Roberts. Roedd pawb wedi, mwynhau bod yn y tŷ. Roedd llawer o bethau i'w gweld ac roedd pawb yn cael chwarae efo hen deganau. Roedd pawb hefyd wedi cael hwyl yn chwarae efo hen bethau Kate Roberts a chael hwyl yn eu cymharu efo pethau heddiw. Am fore prysur, sgwn i beth fydd ein trip nesaf?

Hannah Duncan

* * *

Ffrwydro yn y Brifysgol

Ar Mehefin 10fed aeth plant blwyddyn 5 a 6 i'r Brifysgol ym Mangor i gael bore o arbrofi a ffrwydro. Yn lwcus cafon nhw fws crand. Dyma Gwen.A i ddweud dipyn,

'Dwi'n edrych ymlaen at fynd, i weld beth rydym yn mynd i'w wneud a dydyn ni ddim yn gorfod gwneud gwaith!'

'Pwy ydach yn feddwl sydd yn mynd i fwynhau'r profiad fwyaf?'

'Ella Ciaran, Morgan a Jos.'

Aeth y plant i'r ystafell Cemeg i glywed M.A.Tomos yn siarad. Roedd 5 o ysgolion arall yna i wneud y gwaith hefyd. Dechreuodd Mr.Tomos siarad am y corff a sut rydach yn cynhyrchu gwres a pha fath o siwgwr sydd i'w gael. Wedyn, a dyma lle dechreuodd yr hwyl, gofynnodd i rai plant ddod allan i wneud abrofion. Dyna pam ffrwydrodd yr ysgol (jôc).

Aeth Ceri Lyn a Jamie o blwyddyn 5 allan o Ysgol Dolbadarn i wneud arbrawf gyda ffyn golau (*glow sticks*). Cyn hir roedd yn 11:30 am ac aeth dau blentyn arall allan i wneud abrofion gwahanol. Gwnaeth Amanda a Jos, blwyddyn 6, lawer o liwiau o chael llawer o hwyl. Dyma beth ddywedodd Amanda wedyn:

'Roedd gwneud yr arbrawf yn hwyl.'

A dyna ddiwedd bore o ffrwydro i blant Dolbadarn.

Elinor Lampard

* * *

O Na! Trwbwl!!

Ar ddydd Gwener 13eg o Fehefin aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Ysgol Brynraefail am y dydd. Siaredais efo Gwen Alaw cyn iddi fynd a dywedodd,

'Rydw i'n edrych ymlaen yn arw.'

Aethom i'r ysgol ac roedd pawb yn hapus. Buom yn siarad efo Mrs McDermot ac wedyn aethom i mewn i'r ysgol. Yn gyntaf cawsom Dylunio a Thechnoleg efo Mr Peredur Williams, yn y wers nesaf cawsom goginio fflapjacs efo Miss Powle. Roedd pawb yn hapus, dyma sylwadau Chris W.,

'Roedd hyn yn llawer o hwyl!!'

Yna cawsom amser egwyl a chefais ddiod o vimto a myffin. Y wers wedyn gawsom oedd Cerdd a buom yn chwarae ar yr allweddellau. Yng ngwers olaf y bore cawsom helfa drysor rownd yr Ysgol, ond doedd dim trysor ar y diwedd!

Cyrhaeddodd amser cinio, hwrê! Cafodd Gareth hwps spageti, bysedd pysgod a sglodion, ac i bwdin cafodd gacen sbwng efo cwstard.

Ar ôl amser cinio cawsom brawf – roedd yn reit hawdd ac i'r wers olaf cawsom Ffrangneg – HWRE!!

Ar y bws adref roedd pawb yn siarad ac yn chwerthin am y pethau wnaethom. Mwynhaodd pawb. 'Druan o Ysgol Brynrefail,' meddai Mr Wynne!

Glesni Williams

Sŵ Bae Colwyn

Dydd Iau Gorffennaf y 10fed aethom ni ar drip i Sŵ Bae Colwyn. Roeddwn i yn teimlo'n gyffrous wrth gychwyn ar y bws. Cyrhaeddom y sŵ am 10 o'r gloch.

Gwelsom nifer o anifeiliaid yn y sŵ; morloi, teigr, fflamingo, parot, camelod, llewpart, condor, llygoden noeth, chwilen ddu, carw bach, gafr, dyfrgi, ffwlbart, mwnci, pengwin, tylluan, adar, llwynog, cwningen a hwyaid.

Yn y prynhawn cawsom eistedd er mwyn bwyta ein cinio. Roeddwn i ar lwgu erbyn hyn. Wrth fwyta fy nghinio cawsom sioe gan y pengwins. Roedd y pengwin yn cerdded 'wibbli wobli' tra'n cael pysgod i'w fwyta. Hedfanodd adar eraill wedyn o'n cwmpas.

Cododd yn braf erbyn diwedd y dydd ac roedd yn amser i fynd yn ôl ar y bws. Euthum i'r siop cyn cychwyn a wedyn aethom ni ar y bws. Cefais amser ardderchog yn Sŵ Bae Colwyn ond roeddwn wedi blino'n lân erbyn amser mynd adref.

Rebecca Ellis, Blwyddyn 4

DYMUNA mam a merch, Marga Bee a Jess Hughes, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth pan gymerodd y ddwy ran yn y Ras am Fywyd *(Race for Life)* yng Nghaernarfon ym mis Mai. Codwyd £550 tuag at Ymchwil Cancr er coffadwriaeth i Alan Hughes, brawd Marga ac ewythr Jess. Diolch hefyd i Jean a Graham Hughes, Prince of Wales, Llanberis, am eu caredigrwydd a diolch yn arbennig iawn i Alan Bee am drefnu'r gystadleuaeth dartiau wych.

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

HOFFAI Anita, Sylvia, Brenda, Pauline a'r teulu ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Naini annwyl – y ddiweddar Mrs Hilda Williams. Diolch am y cardiau a'r cyfraniadau hael er cof amdani.

Roedd wedi byw yn yr un tŷ yn Llanberis ar hyd ei hoes, ac yn meddwl y byd o'r pentref a'r trigolion. Bydd chwith mawr ar ei hôl, yn enwedig yn ardal Vaynol Cottages ble byddai wrth ei bodd yn crwydro a sgwrsio efo pawb – hen ac ifanc, ymwelwyr a phobl Llanberis.

Bydd colled ar ei hôl yn Eglwys Sant Padarn hefyd, ble bu'n aelod ffyddlon gydol ei hoes.

DYMUNA Dilys Baylis ddiolch i bawb am y gefnogaeth wrth brynu ei llyfr *Bric a Brac*. Fe gasglwyd cyfanswm o £600 at 'Cynllun E.F.E.'

DYMUNA Ceinwen Williams, Cambrian Terrace ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a theulu am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddi ar ei phen-blwydd.

DYMUNA Mair a Carys (Tan Dderwen, 6 Fron Goch, gynt) ddiolch o galon i bawb a fu mor hael â'u noddi i gymryd rhan yn nhaith gerdded noddedig y 'Moonwalk' yn Llundain ar 17 Mai 2008. Llwyddwyd i godi dros £700 tuag at elusennau cancr y fron.

BORE COFFI. Mae bore coffi elusennol yn cael ei gynnal ar fore lau cyntaf pob mis, rhwng 10.30 a 12 o'r gloch, yng Ngwesty Dolbadarn.

Bydd y nesaf ar fore lau y 4ydd o Fedi, croeso i bawb.

CINIO I RAI DROS 60. Mae'r cinio misol i rai dros 60 oed wedi ailgychwyn yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis.

Cynhelir y Cinio ar ddydd Mawrth diwethaf o bob mis am 12.30 — bydd y nesaf ar 30ain o Fedi.

Os nad ydych ar y rhestr rheolaidd yn barod, cysylltwch ag Eirian Mali ar (01248) 670391!

DIOLCHIADAU. Dymuna Appy Jones, 14 Turner St., Llanberis, ddiolch o galon am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

DYMUNA Helen Parry, 15 Stryd Turner, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, arian, anrhegion a galwadau ffôn tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

DYMUNA Mrs Elizabeth Griffiths, 6 Stryd Turner, diolch i Roy, Darryl a Siôn, Haley, Tracy a Peter a'r plant am yr anrheg a'r cinio arbennig yng Ngwesty Victoria Llanberis ar achlysur ei phen-blwydd yn 65 oed ym mis Gorffennaf, ac hefyd i'w ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr iawn.

HOFFAI Hefin ac Elizabeth, Balaclava House ddiolch o waelod calon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, rhoddion a'r arian a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 10 Awst. Hefyd diolch am y parti a'r adloniant yng Nghlwb y Sosial.

DYMUNA Marion, 5 Rhes Efrog, a theulu'r diweddar Brian Davies, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd.

DYMUNA Mrs Megan Owen, 59 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn arbennig i Moreen am drefnu'r dathliad yng Ngwesty'r Victoria.

DYMUNA Gordon, 46 Maes Padarn, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed ar 6 Gorffennaf. Hefyd diolch arbennig i'r rhai a baratodd y wledd a'r syrpreis. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH. Dymuna Gloria, Barrie, Vernon, Malcolm, Mel, Beverley a'r teulu oll ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl, William John (Bill) Pitts. Gwerthfawrogir y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd. Diolch arbennig i'r Parchedig Robert Townsend am ei wasanaeth yn yr angladd ac i'r trefnwr angladdau, Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am y trefniadau trylwyr a theimladwy.

DYMUNA Geraint a Cheryl Thomas, 7 Rhos Rug, Llanrug, ddiolch i'w holl ffrindiau a theulu am y llu anrhegion, arian a chyfarchion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

DYMUNA Marian, Ken, Gwion, Llinos, a'r teuluoedd ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl iawn, sef Ann Edwina Roberts, gynt o Eryri Wen Penygroes. Diolch i ffrindiau a chymdogion am eu cefnogaeth ac hefyd i'r Parchedig John Pritchard am ei ofal a'i gyfraniad yn y gwasanaeth.

Diolch o'r mwyaf am y cyfraniadau tuag at ymchwil Alzheimers ac Uned Heulwen Ysbyty Gwynedd.

Rhoddion er côf am YVONNE PITTS

Hoffai Malcolm Pitts ddiolch i bawb fu mor hael yn ei noddi i godi arian at achos sydd yn agos at galonau llawer. Gyda phleser y cyflwynodd Malcolm siec o £700 i Dr Esyllt o Feddygfa Waunfawr am y gwaith da maent yn ei wneud. Hefyd yn y llun mae Charlotte a Nyrs Carol o'r Feddygfa.

Hefyd cyflwynodd Malcolm ac Alwena Leadbitter siec o £1,500 i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, am eu gwaith caled a diflino i helpu'r rheini sy'n dioddef o'r afiechyd creulon yma. Mae Laura a Diana, Nyrsys Ward Alaw, a'r staff yn ddiolchgar dros ben am y swm yma.

Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i Malcolm golli ei wraig, Yvonne, i ganser ar 22 Mehefin 2006 a hithau ddim ond yn 47 mlwydd oed. Roedd yn golled aruthrol i'r teulu a dim ond trwy gadw'n brysur i godi arian i'r achosion yma mae'n gallu ymdopi yn well hefo'r golled.

Diolch i bawb a helpodd unwaith eto i godi swm mor fawr, a diolch i Alwena am ei chwmni i feicio'r 50.12 milltiroedd am yr ail flwyddyn yn olynol.

Dyma uchafbwynt y flwyddyn i Malcolm ac os bydd ei iechyd yn ddigon da mae'n gobeithio gwneud hyn eto y flwyddyn nesaf.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

H. E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Clifford Williams ac Eryl Roberts yn Marchlyn Mawr.

CYNYDDIAD CRONFA MARCHLYN MAWR. Derbyniodd y Cyngor Cymuned wahoddiad gan First Hydro i weld y gwaith ar gynyddu Cronfa Marchlyn. Esboniwyd i bawb y rheswm dros yr angen ac fe'n cludwyd i weld y Gronfa. Roedd yn fore diddorol (er ei bod yn wlyb iawn!). Clifford Williams ac Eryl Roberts aeth i gynrychioli'r Cyngor.

LLONGYFARCHIADAU i Natalie Elisha, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, ar ennill gradd BA 2.1 gydag Anrhydedd mewn Hanes ym Mhrifysgol Lancaster. Cariad mawr, Mam, Dad, Elain, Martin a'r teulu i gyd.

LLONGYFARCHIADAU mawr hefyd i Kieran McGuiness a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Taflu Disgen pan yn cynrychioli Eryri yn Chwaraeon Ysgolion Cymru ym Mrycheiniog yn ddiweddar.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Nia a Deiniol (Hawddamor), Llanelli, ar enedigaeth Ianto. Mae Now ac Anne wedi gwirioni cael bod yn Daid a Nain newydd.

I Ffion a Bedwyr, Rhostryfan (Fferm Minffordd) ar enedigaeth Seth – llongyfarchiadau i John a Menna, hen law erbyn hyn ar fod yn Daid a Nain!

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Siôn a Nan Humphreys, Bryngwyn, ar ddod yn Daid a Nain newydd i Betsan Haf, merch fach Siwan a Raph.

Pob bendith arnoch chi i gyd.

TRIP EGLWYS SANT MIHANGEL. Mwynhawyd trip i Iwerddon yn ddiweddar gan aelodau a ffrindiau'r Eglwys. Mae cymaint o alw a diddordeb fel bod sôn am drefnu trip eto y flwyddyn nesaf, ond yn ychwanegol, bwriedir aros noson y tro yma. Mis Mai 2009 fydd y cyfnod tebygol, ac os oes diddordeb gan unrhyw un, gallwch gysylltu â Gwilym Rees Parry (674530) neu Andrea Roberts (671981).

LLONGYFARCHIADAU i Karen Elizabeth Vipond ar dderbyn Gradd Athro gan yr Is-Ganghellor a'r Arglwydd Dafydd Elis Tomos, y Llywydd, ym Mhrifysgol Bangor. Graddiodd Karen mewn Addysg gyda Rhagoriaeth. Darlithydd ydi Karen yn yr Ysgol Gwyddoniaeth Gofal Iechyd. Mae yn ferch i John a Morfudd, Bwthyn Bryn Coch, mae'n briod gyda dau o blant ac yn byw yn Llandegfan, Ynys Môn.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Lloyd Jones, 2 Tal y Bont, am basio ei drwydded cneifio ym Machynlleth o dan ofal Mr J. Pugh. Dymuna Ceris, Dawn a Gwyn ddiolch i Michael (Kent) Owen am y trefniadau ac am yr amser a roddir i Gwyn.

PROFEDIGAETHAU. Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Elizabeth M. Williams, a fu farw yn 102 oed yng Nghartref y Foelas, Llanrug, gynt o Ddeiniolen.

Yn 72 oed, bu farw Gwilym Griffiths (Plymar) ar ôl gwaeledd brwnt iawn. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Clive, Gerald, Nigel, Kenny a'u teuluoedd ac â'i chwaer, Mrs Megan Jones, 56 Glanffynnon. Bydd colled fawr ar ei ôl, yn enwedig i'r teulu, ond hefyd i'w ffrindiau lu, Roedd hyn yn amlwg iawn yn ôl y dorf a fu yn ei gynhebrwng.

DYMUNA Ceri Hughes, 7 Hafan Elan, gydnabod caredigrwydd ei theulu, ffrindiau a'i chymdogion am wneud achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn un arbennig iawn. Cafodd ddiwrnod i'w gofio ganol mis Gorffennaf. Yn ddiffuant iawn, diolch o galon i bawb am gofio amdani.

CAPEL Y RHOS. Oedfaon mis Medi am 10 y bore:

7: Parch. Marcus Robinson;
14: Parch. Gwyn Rhydderch;
21: Parch. Marcus Robinson;
28: Parch. Ddr. Densil Morgan.

CLWB CANT Y SEFYDLIAD COFFA

Enillwyr Gorffennaf: £20: Mrs C. Evans, 9 Nant y Glyn; £7: Mrs L. Jones, Tremynfa, Talybont; £5: Ellen Roberts, 7 Afon Rhos.

Enillwyr Awst: £20: Iwan Williams, 35 Nant y Glyn; £7: Mrs M. Roberts, Rhes Minffordd; £5: Mrs M. Roberts, 7 Afon Rhos.

Y criw a fwynhaodd y trip eleni.

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979 620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

YSGOL GYNRADD LLANRUG FFARWEL. Dydd Gwener ola'r tymor, roedd dwy o'r athrawon, sef Mrs Nan Roberts a Mrs Nêst Efans, yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth yn yr ysgol. Bydd colled fawr ar eu hôl i'r plant a'r staff gan fod y ddwy wedi bod mor ymroddgar ar hyd y blynyddoedd.

Dymunwn ymddeoliad hapus i chi, Mrs Roberts Bach a Mrs Efans Gwallt Coch, gan obeithio y cewch flynyddoedd o hapusrwydd eto. Os byddwch yn pasio, cofiwch alw i mewn i'n gweld.

DIOLCH. Hoffwn drwy gyfrwng yr *Eco*, ddiolch o galon i staff, disgyblion, cyn-ddisgyblion, rhieni a ffrindiau yr ysgol am y caredigrwydd, y dymuniadau da mewn cerdyn a rhodd, a dderbyniais drwy'r blynyddoedd ac ar fy ymddeoliad. Byddaf yn gweld eich colli yn fawr iawn. Diolch. Nan Roberts.

Hefyd roeddem yn ffarwelio ag aelod arall o'r staff, sef Mrs Rhian Hughes, athrawes y Dosbarth Meithrin. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd fel Athrawes Ymgynghorol ar Ynys Môn.

YMWELIADAU. Bu'n ddiwedd tymor prysur eto eleni. Cafodd blwyddyn chwech gyfle i fynd am dridiau i Ganolfan yr Urdd, Llangrannog. I Gonwy yr aeth blwyddyn pump – i'r Ganolfan Adar a Bywyd Gwyllt. Aeth blwyddyn tri a phedwar i ganolfan Gelli Gyffwrdd. Croesi'r ffin i barc Saffari Knowsley wnaeth blwyddyn un a dau. Bu'r dosbarth derbyn yn ymweld â'r Bad Achub ym Moelfre ac yn nes ymlaen i'r Sw Fôr yn Rhyl. Aeth y dosbarth meithrin i Gelli Gyffwrdd.

RHYD-DDU Mwynhaodd disgyblion blwyddyn tri a phedwar amryw o weithgareddau awyr agored ar y daith flynyddol i ganolfan Rhyd-ddu.

FFAIR HAF. Cynhaliwyd Ffair Haf fyrlymus a llwyddiannus yn yr ysgol – diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch i Brigyn am ddiddanu ac am gyflawni'r dasg andros o anodd o feirniadu'r gystadleuaeth gwisg ffansi!

CYSTADLEUAETH GWAYWFFON Cafodd Lleucu Brookes lwyddiant yn y mabolgampau gan fynd ymlaen i adran Gogledd Cymru. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth taflu gwaywffon. Da iawn ti Lleucu – arbennig o dda.

Y FRÂN WEN. Cafodd blwyddyn pedwar brynhawn wrth eu boddau wrth wylio perfformiad diweddaraf y cwmni theatr mewn addysg, Y Frân Wen.

FFARWELIO ETO. Ar fore Gwener ola'r tymor, blwyddyn chwech oedd yn cynnal y gwasanaeth gan rannu eu hatgofion o'u hamser yn yr ysgol. Roeddynt wedi cyfansoddi cân wreiddiol ar alaw gan grŵp poblogaidd a dangoswyd lluniau a chlipiau fideo o'u hamser yn yr ysgol. Dymuwn yn dda iddynt yn yr ysgol Uwchradd ym Mrynrefail a gobeithio y cawn nhw flynyddoedd hapus eto yn yr ysgol honno.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Heulwen Williams, Glan Moelyn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl alwadau ffôn a chardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd yn Broadgreen, Lerpwl. Diolch i bawb.

MERCHED Y WAWR. Bydd y Gangen yn ailgychwyn nos Fawrth, 9 Medi, am 7.30 yr hwyr yn y Sefydliad Coffa. Y mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu a chychwynnir gyda noson yng nghwmni Buddug Jones a'i chi tywys , Ivy, ac Elfyn Evans a'i gi tywys, Bruce, ar ran Cymdeithas Cŵn Tywys Gwynedd. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r gangen a hynny ar yr ail nos Fawrth o fis Medi i Fehefin.

BEICWYR DEWR. Dymuna Bedwyr, Dylan Edwin a Keith ddiolch o galon i'w teuluoedd, cymdogion a ffrindiau lu o fro'r Eco a thu hwnt am y gefnogaeth a'r anogaeth gref a gawsant yn ystod eu Beicio Noddedig er budd Ymchwil Cancr ac Ymchwil yr Arennau. Bu'r ymateb tu hwnt i'w disgwyliadau a bu'r croeso yn 'Yr Harbwr' yn goron ar y gwaith caled. Diolch i chwi oll. Bydd y nawdd ar agor hyd ddiwedd Medi.

Llongyfarchiadau i Michelle Louise Roberts am ennill y drydedd wobr yng ngystadleuaeth Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

ARVONIA

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon at bob achlysur
Priodas
Parti
Te Angladdau
Cinio Busnes
CERID MACKINNON
Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR
SKODA TYRBO BMW CLUTCHES PEUGEOT BRÊCS ABS FIAT
MEWNFORIO YR ALMAEN UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL SWEDEN
•Cymhwyter•
BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau
MOT
Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio
Shell HELIX
Ståd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Gwasanaeth i'r Car
BOSCH Service
OFT
AIR CON GWASANAETH BATRIS
VOLVO MERCEDES SAAB

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

DIOLCH. Dymuna John Maldwyn a Mair ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur yn ystod mis Ast.

DIOLCH. Dymuna Rhian, Dulas, 4 Stryd Fawr, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ystod profedigaeth ei brawd, Llywelyn. Diolch o galon.

DYMUNA Bethan a Macari ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Caio Ffowcs. Hefyd diolch am y galwadau ffôn ar ymholiadau a gafwyd tra roedd Caio yn Ysbyty Glan Clwyd.

DYMUNA Edna Jones, Maes Gwylfa, ddiolch yn fawr iawn i Edwina, Dick, Wendy a Mario (wyrion), i John a'r teulu, ei ffrindiau a'i chymdogion i gyd am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DYMUNA Buddug E. Thomas, 5 Rhydfadog, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian, yr anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu hi yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl iddi ddod adref.

DYMUNA Margaret, Ernie, Mair, Jennifer a theulu y ddiweddar Blodwen Parry ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam yng nghyfraith a Nain arbennig. Diolch am y rhoddion hael tuag at addasu Capel Ebenezer. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth tyner a hefyd i John B. Jones, yr Organydd. Diolch arbennig i Dylan Griffith am ei drefniadau gofalus a thrylwyr.

LLONGYFARCHIADAU i Lois Regan, Stryd Newydd, ar dderbyn gwobr Chwaraewr Gorau Cynghrair Genethod Gogledd Cymru yn ddiweddar. Mae hi'n chwarae i dîm o dan 11 Llewod Llanrug. Da iawn ti, Lois. Ymlaen rŵan am dîm Merched Cymru a chael teithio'r byd.

DYMUNA Geraint Morris, Foelas, Stryd Fawr, a'r teulu ddiolch i ardal Deiniolen am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod ei brofedigaeth o golli Dilys, ac hefyd am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Mae tymor y Gymdeithas Lenyddol wedi dod ar ein gwarthaf unwaith eto.

Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn Nhŷ Elidir ar 22 Medi, am 7 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Mr Elfed Morgan Morris, Llechwedd, yn rhoi sgwrs a chân. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu ar ein cyfer am y gaeaf. Croeso cynnes i bawb.

MERCHED Y WAWR. I ddiweddu'r tymor aeth cangen Merched y Wawr i Langernyw i ymweld ag Amgueddfa Syr Henry Jones a oedd yn fab i grydd y pentref. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio hefo'i dad ond hefyd byddai'n gweithio ar ei lyfrau hyd oriau mân y bore. Llwyddodd i ddod yn Athro mewn Athroniaeth Foesol ym Mhrifysgol Glasgow a bu'n ddylanwad mawr ar y system addysg yng Nghymru. Cafodd ei urddo yn 1912.

Ar ôl cael ein tywys o amgylch yr Amgueddfa cawsom fynd i weld y capel lleol a hefyd yr eglwys sydd â choeden Ywen dros 4,000 mlwydd oed yn y fynwent. Ar ôl paned o de aethom i Fetws y Coed i siopa ac oddi yno ymlaen i Drefriw i gael pryd blasus yng ngwesty'r telynor adnabyddus, Dylan Cernyw. Diolchwn yn fawr iawn i Margaret Ellen ac Eirian am drefnu'r wibdaith.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y trydydd nos Lun yn mis Medi pryd y disgwylir Mair Penri o'r Bala i'n diddanu.

Taer erfyniwn am aelodau newydd i ymuno â ni. Dowch ar y noson yma i chi gael tamaid i'w brofi, yn sicr wnewch chi ddim difaru. Mae rhaglen amrywiol a fydd at ddant pawb wedi ei threfnu ar gyfer y tymor nesaf.

CYDYMDEIMLWN â Geraint Morris, Foelas, Stryd Fawr, yn ei brofedigaeth o golli ei wraig, Dilys, yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN hefyd â Mrs Grace Maxwell, Rhydfadog, yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, Ronald, yn ddiweddar.

ESTYNNWN ein cydymdeimlad â Mrs Margaret Ellen Jones, Porth y Gogledd, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Blodwen Parry. Hefyd, collodd Mrs Rhian Jones, Dulas, Stryd Fawr, ei brawd, Llewelyn, yn ystod yr haf. Estynnwn ein cydymdeimlad iddi hi a'i theulu.

ESTYNNWN ein dymuniadau gorau i bawb o'r pentref a fu'n wael yn ddiweddar, gan ddymuno gwellhad buan iddynt oll.

LLONGYFARCHIADAU i ieuenctid yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau ysgol a choleg yr haf hwn. Dymunwn iddynt bob llwyddiant i'r dyfodol.

Cefnogwch
ein Hysbysebwyr

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, a Lindsay Vaughan Pleming, Rhes Deiniol, ar gyrraedd y brig yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008.

Braf iawn hefyd oedd gweld Trystan Morris, Rhes Cynfi, yn cyflwyno rhaglenni'r Eisteddfod trwy'r wythnos ar S4C.

LLONGYFARCHIADAU i Seindorf Arian Deiniolen ar eu llwyddiant hwythau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ac ar y cyngerdd ardderchog a gynhaliwyd ganddynt yng Nghanolfan y Mileniwm.

GEMAU OLYMPAIDD. Braf oedd gweld llwyddiant ysgubol David Brailsford, gynt o Derlwyn, Clwt y Bont, yn y gemau Olympaidd.

Roeddem yn falch o weld ei dîm beicio wedi dod â llwyddiant mawr i dîm Prydain, gan gipio nifer o fedalau, nifer fawr ohonynt yn rhai aur.

YSGOL SUL UNEDIG. Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau yn Festri Capel Ebenezer am 10.15 ar 7 Medi yn dilyn gwyliau'r haf. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

ADUNIAD SAFON 2, YSGOL DEINIOLEN YN 1956. Fel y cofiwch, fe ymddangosodd y llun yn rhifyn mis Chwefror o'r *Eco*. Dyma'r criw sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 60 oed eleni. Mae cinio aduniad wedi ei drefnu yn y Dolbadarn, Llanberis, ar y 1af o Dachwedd.

Mae nifer dda yn awyddus i gyfarfod ond rhaid cael yr enwau cyn diwedd Medi.

Felly cysylltwch yn syth gyda un o'r canlynol Hilda (872 615) Jen, trin gwallt ar (676772) Neville (872 570) neu Mair (677263).

Cewch wybod ar y ffôn beth fydd ar y fwydlen er mwyn archebu. Byddai'n syniad i bawb basio'r wybodaeth yma ymlaen i rai, hwyrach, sydd ddim yn cael yr *Eco*.

Hefyd beth am chwilio am hen luniau o'r cyfnod hwnnw? Mi fydd 'na hen siarad a hel atgofion. Edrych ymlaen felly i weld pawb ym mis Tachwedd !

Aelodau cangen Merched y Wawr o flaen Amgueddfa Syr Henry Jones yn Llangernyw.



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



YSGOL GWAUN GYNFI. *Disgyblion yn Dysgu am Reolau'r Ffordd Fawr.* Mae disgyblion Blwyddyn 1 Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen wedi cychwyn ar gynllun diogelwch y ffyrdd, Kerbcraft, o dan hyfforddiant Cheryl Morgan, Cydlynydd Hyfforddi Cerddwyr Ifanc Cyngor Gwynedd. Mae'r disgyblion eisioes wedi cael budd sylweddol o'r cynllun wrth iddynt fynd allan o gwmpas yr ardal i ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar ochr y ffordd.

Yn ddiweddar, derbyniodd y disgyblion dystysgrifau yn eu llongyfarch am gwblhau'r cwrs gan gymeriad hoffus Carys Ofalus, sef cymeriad diogelwch y ffyrdd Cyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun wedi ei sefydlu yn yr ysgol ers dwy flyneddd bellach, ac mae'n ddull poblogaidd ac effeithiol wrth hybu diogelwch y ffyrdd.

Bydd y cynllun yn ailgychwyn yn yr Ysgol ym mis Medi.

Plant Blwyddyn 1 Ysgol Gwaun Gynfi a fu'n cymryd rhan yng nghynllun diogelwch y ffyrdd Cyngor Gwynedd

ADUNIAD, WEDI 80 MLYNEDD. Dyma ddwy wraig a fagwyd yn Neiniolen, ond a wahanwyd pan adawsant yr ysgol yn bedair ar ddeg oed. Aeth Annie Roberts i weini ar fferm yn ardal Llanddona, Ynys Môn – priododd a sefydlu cartref yn yr ardal. Yn Neiniolen y bu May Jones fyw, priodi a magu teulu. Rhyw bedair blynedd yn ôl fe gyfarfu'r ddwy eto, a hynny am y tro cyntaf ers gadael yr ysgol, ym Mhlas Mona, Llanfairpwll, lle mae'r ddwy wedi ymgartrefu bellach.

Mae'r ddwy wedi dathlu eu pen-blwyddi yn ystod mis Awst – Mrs May Jones yn 96 ar y deunawfed a Mrs Annie Williams yn 94 ar yr wythfed. Gobeithio fod y ddwy wedi mwynhau eu diwrnod arbennig. Dymunwn iddynt iechyd i fwynhau llawer pen-blwydd eto i'r dyfodol. Mae'r ddwy yn canmol y caredigrwydd a'r gofal a gant ym Mhlas Mona.

Y PARCH W.J. LEWIS

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r uchod yng nghanolfan Blue Peris, a lywyddwyd gan Dennis Glass, yn absenoldeb John Cantrell, llongyfarchwyd Andrew ac Alice Griffith ar ddathlu 61 o flynyddoedd o fywyd priodasol. Llongyfarchwyd hefyd Terry Taylor ar ennill gwobr Efydd yng nghystadleuaeth Garddio Bywyd Gwyllt. Cyflwynwyd y wobr iddo ym Mhorthmeirion.

Bu trafodaeth ar sut i gynnal a thacluso safle Cofeb i'r Chwarelwyr. Y clwb oedd yn gyfrifol am godi'r Gofeb yn 2005 ac fe fu'r safle yn destun edmygedd i lawer o welodd y cennin Pedr ar eu gorau yno yn ystod y gwanwyn. Erbyn hyn mae'r gwaith o dorri'r gwair a thacluso o gwmpas y Gofeb wedi mynd yn drech na'r aelodau. Gwerthfawrogid cymorth ariannol tuag at wneud y gwaith. Fe'n hysbyswyd fod cais am grantiau wedi eu gwneud i'r Cynghorydd Sir lleol, Len Jones.

Rhoddwyd y te gan Betty Roberts a Francis Hoyle. Hwy hefyd, yn ogystal â Joan Glass a Kathleen Davies, a roddodd wobrau'r raffl a enillwyd gan Alice, Kathleen, Nellie a Ray.

* * *

Cyfarfu'r clwb dan lywyddiaeth John Cantrell a chroesawyd Mr a Mrs Bullock, Fachwen, yno a mwynhaodd pawb brynhawn cerddorol dan arweiniad y cyfansoddwr Mr Dafydd Bullock. Betty Ann, Elizabeth a Beryl a enillodd y cwis cerddorol a chyflwynodd y siaradwr gwadd dâp o fiwsig yr un iddynt. Diolchwyd i Mr Bullock am brynhawn difyr ac edrychir ymlaen at ei ymweliad nesaf â'r clwb.

Rhoddwyd y te gan Dennis a Joan Glass. I orffen tymor yr haf gwahoddwyd yr aelodau i farbaciw yn eu cartref gan y llywydd a'i briod, Rose. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

DECHRAU TYMOR NEWYDD. A'r gwyliau'n tynnu tua'r terfyn a'r tywydd ddim wedi bod yn rhy garedig hefo ni, dyma ni yn wynebu ar dymor newydd. Llongyfarchiadau i'r ifanc a lwyddodd yn eu arholiadau ac sy'n wynebu ar fywyd newydd yn y coleg neu mewn swyddi ac, wrth gwrs, i'r plant a fydd yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf; eu bywydau bach wedi newid yn llwyr. Pob lwc iddynt i gyd i'r dyfodol.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB BRO BETHEL. Ar bnawn Mawrth, 9 Medi, bydd y Clwb yn cyfarfod i ailgychwyn y gweithgareddau am eleni. Cynhelir y cyfarfod yn Festri Bethel am 2.00 gyda Meirion Hughes, Caernarfon, yn ŵr gwadd. Dewch draw am sgwrs a phaned a chyfle i gymdeithasu. Bydd croeso mawr yn eich disgwyl.

DYMUNA Huw a Cathrin Llywelyn ddiolch o galon i deulu a ffrindiau am yr holl gardiau, rhoddion a dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar ddydd Sadwrn, 23ain Awst.

DYMUNWN yn dda ac anfonwn ein cofion at John Evans, Pen Parc, Bethel, sydd yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth ar ei galon. Brysiwch adra, John.

MERCHED Y WAWR. Bydd cyfarfodydd y gangen yn cychwyn nos Fercher, 10 Medi am 7.30 yn yr ysgol yng nghwmni Wyn Thomas o'r Adran Gerdd, Coleg y Brifysgol Bangor. Bydd lluniaeth ysgafn i bawb ar ddiwedd y noson a chroesewir aelodau newydd i ymuno â'r gangen. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu am y flwyddyn.

CRONFA GOFFA OWEN JONES, BETHEL

Mae gan Ymddiriedolwyr yr elusen uchod nawdd o hyd at £50 i'w gynnig yn flynyddol i berson ifanc o bentref Bethel sydd ar fin cychwyn gyrfa coleg.

Am fanylion pellach/ffurflen gais, cysyllter â Mr Dylan Parry, Pennaeth Mewn Gofal, Ysgol Bethel ar: (01248) 670663 cyn 30 Medi.

DIOLCH. Dymuna John Maldwyn a Mair, 13 Tan y Buarth, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu Priodas Aur yn ystod mis Awst.

DIOLCH. Dymuna Mrs Sheila Roberts, Tan y Buarth, ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac yn arbennig i staff meddygfa Stryd y Farchnad am eu gofal.

CLWB 200 NEUADD GOFFA. Enillwyr misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf oedd:

Mai: £40: (139) Gwynfor Morris, Treflys, Bethel; £20: (111) Susan Owen, Llys Gwynedd, Bethel; £10: (145) Albert Hughes, 34 Bro Rhos, Bethel.

Mehefin: £40: (115) Ann Williams, Ty'n 'Rardd, Bethel; £20: (27) Pauline Wetherby, 4 Bro Eglwys, Bethel; £10: (141) Nan Owen, Berwyn, Saron, Bethel.

Gorffennaf: £40: (37) Helen Morris, 29 Bro Eglwys, Bethel; £20: (98) Carys Roberts, 2 Penrhos, Bethel; £10: (43) Oscar a Mary Evans, 3 Bro Eglwys, Bethel.

Mae eto'n ben blwyddyn aelodaeth y Clwb 200 ac mae cyfle i'r holl aelodau ailymaelodi. Bydd cynrychiolwyr Pwyllgor y Neuadd yn dod o amgylch yr aelodau yn ystod y dyddiau nesaf i gasglu tâl aelodau.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Clwb 200 dros y blynyddoedd ac anogir pawb i ailymaelodi, gan fod cyfraniad y Clwb yn hanfodol i'r Neuadd i'w chynnal yn ystod y flwyddyn.

LLONGYFARCHIADAU unwaith eto i ieuenctid y pentref yn eu llwyddiant mewn arholiadau ysgol a choleg.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n symud ysgol neu'n mynd ymlaen i goleg neu waith a phob llwyddiant yn y dyfodol.

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched, dynion a phlant yn eich cartref

Symudol:
07919 897898
Ffôn:
(01286) 871869

Penodi Gweithiwr Efe

Sut haf gawsoch chi? Bu'n gyfnod prysur i Gynllun Efe. A'r newyddion da yw ein bod wedi penodi gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'n helpu yng ngwaith yr Efengyl yn y fro hon. Do, wedi tair blynedd a hanner o weddïo a thrafod a chynllunio a hel arian, fe lwyddwyd i benodi gweithiwr i'r swydd.

Andrew Settatree yw hwnnw. Cafodd ei fagu yn Hwlffordd, yn Sir Benfro. Wedi gadael Ysgol Tasker Milward yn y dref honno, dilynodd gwrs mewn astudiaethau ieuenctid a chymunedol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yna gwrs nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu'n gweithio fel nyrs yng Nghaerdydd, ac yna yn Awstralia dros y flwyddyn ddiwethaf. Go brin fod yr un ohonom ar bwyllgor Efe wedi dychmygu y byddem yn derbyn cais am y swydd o ben arall y byd. Ond dyna ddigwyddodd.

Cafodd Andrew brofiad o waith ieuenctid yn ei eglwys leol yn Hwlffordd ac mewn eglwys yng Nghaerdydd. Ond dyma'r tro cyntaf iddo fentro i waith o'r fath yn llawn amser. Mae'n awyddus iawn i gyflwyno'r Efengyl i blant a phobl ifanc. Mae wedi dysgu'r Gymraeg; a pheth braf iawn yw ei glywed yn dweud am ei awydd i gyflwyno'r Efengyl yn y Gymraeg. Dysgodd yr iaith pan dreuliodd chwe mis yng Ngholeg y Bala yn ystod blwyddyn 'gap' wedi gadael ysgol. Aeth yno, yn ôl pob tebyg, yn benodol er mwyn dysgu'r iaith.

Mae'r penodiad yn ffrwyth y cydweithio hapus a brwd a welwyd dros y tair blynedd a hanner diwethaf. Bydd aelodau eraill y pwyllgor a fu'n gweithio'n ddiwyd yn goddef i mi ddiolch ar eu rhan i'r Parchg Dafydd Lloyd Hughes am ei weledigaeth a'i benderfyniad wrth iddo gynnull y pwyllgor a'i arwain o'r cychwyn cyntaf. Dan ei arweiniad, cafwyd pwyllgor effeithiol sydd wedi gweithio'n ddiarbed er mwyn gwireddu'r freuddwyd o greu ac ariannu, ac erbyn hyn lenwi'r swydd.

Bu'r pwyllgor yn gefnogol a chytûn dros y tair blynedd a hanner diwethaf, a diolchwn i'r holl aelodau am eu cyfraniad gwerthfawr i'w waith. Mae'r aelodau'n ymwybodol iawn hefyd o gyfraniad arbennig Mrs Susan Williams, Ceunant, yr Ysgrifennydd; Mr Colin Jones, Llanberis, y Trysorydd; a Mr Clive James, Caeathro, a wnaeth lawer iawn o'r gwaith gohebu.

Y gobaith yw y bydd Andrew yn dod i'r swydd ddechrau mis Hydref, a bwriedir cynnal oedfa i gychwyn y gwaith yn swyddogol rywbryd ym mis Tachwedd. Cewch ragor o fanylion am hynny yn rhifyn y nesaf. Yn y cyfamser, edrychwn ymlaen at groesawu'r gweithiwr newydd ac at gydweithio ag ef. Gweddïwch drosom os gwelwch yn dda. Gweddïwch dros Andrew yn sicr, wrth iddo gychwyn ei swydd newydd mewn ardal newydd. Ond nid drosto ef yn unig chwaith, gan ein bod yn benderfynol nad ydym yn disgwyl iddo ef wneud y cyfan. Gweddïwch dros y gweddill ohonom sy'n rhan o waith Efe, yn weinidogion ac aelodau'r eglwysi a fydd yn cydweithio ag Andrew Settatree i gyflwyno'r Arglwydd Iesu i ieuenctid a phlant y fro hon.

JOHN PRITCHARD

J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089 • 01286 830996
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Harddwch eich cartref gyda
***FFENESTRI CELTIC** WINDOWS*
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YR YSGOL GYMUNED.
Cafwyd diwedd tymor prysur iawn yn yr ysgol. Cafodd ddosbarth Marchlyn fynd draw i Lanberis i adeiladu pont a diolchwn i Gyrfa Cymru am y cyfle. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Cafwyd Diwrnod Mabolgampau llwyddiannus ar gae y pentref. Tîm Clegir ddaeth i'r brig eleni – da iawn chi. Llongyfarchiadau i Liam Hughes a Danielle Lynden ar fod yn Bencampwyr y Mabolgampau.



Liam Hughes a Danni Lynden, Pencampwyr y Mabolgampau.

Aeth yr ysgol i gyd am drip diwedd tymor i Gulliver's World a chawsom ddiwrnod bendigedig – ewch draw i'r Albwm ar y wefan i weld yr hwyl.

Carioci yn y Parti Ffarwelio Blwyddyn 6

DIOLCH hefyd am bob cymwynas i Mrs Catherine Williams o Fethel, sydd wedi bod yn cynorthwyo gyda'r Babanod.

Diolchwn yn fawr iawn i rieni plant Blwyddyn 6 am drefnu parti da i'r disgyblion i gyd ar brynhawn olaf y tymor. Dymunwn yn dda i Gerallt, Daniel, Liam, Matthew, Jasper, Chris, Chloe, Danni, Eva, Beca a Rebecca yn yr ysgol uwchradd.

Dymunwn y dda hefyd i Miss Wendy Smith ar achlysur ei phriodas efo Gary Roberts yn ystod mis Awst. Mae Wendy wedi bod yn weinyddes feithrin yn yr ysgol ers pedair blynedd ar ddeg, ac mae'r plant yn meddwl y byd o 'Miss Smith'. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau.

MARWOLAETH. Bu farw Miss Elizabeth Hughes, Tan y graig, yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, lle bu'n byw am bron i ddeng mlynedd, a chafodd ofal tyner a gofalus iawn gan y staff yno.

Byddai wedi dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed mis Rhagfyr nesaf ac wedi cael oes llawn iawn. Roedd ei diddordebau yn eang, croeseiriau yn bennaf, hyd rhyw dair blynedd yn ôl. Roedd ei neiaint a'i nithoedd a'u teuluoedd yn bwysig iawn ganddi ac, yn y blynyddoedd a fu, bu'n crwydro llawer ym Mhrydain ac Ewrop gyda'i ffrindiau. Roedd yn ddarllenwraig frwd hefyd ac yn hoff iawn o bopeth Cymraeg a Chymreig. Bydd colled fawr ar ei hôl i'r teulu a'i ffrindiau.

BEICWYR DEWR. Dymuna Bedwyr, Dylan Edwin a Keith ddiolch o galon i'w teuluoedd, cymdogion a ffrindiau lu o fro'r Eco a thu hwnt am y gefnogaeth a'r anogaeth gref a gawsant yn ystod eu Beicio Noddedig er budd Ymchwil Cancr ac Ymchwil yr Arennau. Bu'r ymateb tu hwnt i'w disgwyliadau a bu'r croeso yn 'Yr Harbwr' yn goron ar y gwaith caled. Diolch i chwi oll. Bydd y nawdd ar agor hyd ddiwedd Medi.

DIOLCH. Dymuna Hilda, Morannedd, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbynioidd tra yn cael triniaeth yn Ysbyty Abergele yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Kate Jones, 2 Dôl Afon, ar ei llwyddiant arbennig yng Ngholeg Meirion Dwyfor, hefyd i bawb o blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

MARWOLAETH. Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, ar 30 Mehefin 2008, bu farw Miss Elisabeth Hughes (Anti Bet) gynt o Dan y Graig, yn 99 mlwydd oed. Miss Hughes oedd yr olaf o naw o blant Hugh ac Elizabeth Hughes. Ganed hi a threuliodd ei hoes gyfan yn ei chartref tan naw mlynedd yn ôl pan ymgartrefodd yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

Fel gweddill y teulu, merch y 'Pethe' oedd Miss Hughes – darllen, dosbarthiadau nos, dramâu, cerddoriaeth ac yn y blaen oedd ei diddordebau a bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel y Tabernacl ar hyd ei hoes. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ar 4 Gorffennaf, gyda'r Parchedig John Pritchard yn gwasanaethu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ac Eryl, Nerys a Berwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli modryb annwyl a hoffus.

LLONGYFARCHIADAU i Beryl ac Islwyn, 7 Dôl Afon, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Kayrha, i Craig a Kim yng Nghaernarfon. Ein llongyfarchion hefyd i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, ar fod yn hen nain am y tro cyntaf.

LLONGYFARCHIADAU i Keith Williams, Bryn, ar ei daith noddedig yn beicio o Gaerdydd i Gaernarfon gyda'r elw yn mynd i Fudiad CLIC.

Rydym yn ffarwelio â Stephanie Williams, un o'n cyn-ddisgyblion, sydd wedi bod yn fyfyriwr yma dros gyfnod o ddwy flynedd. Diolch am bod dim Miss Steph, a bob lwc i chi yn eich swydd newydd yn Ysgol Glan Cegin.

YSGOL BRYNREFAIL

Gwaith Maes Daearyddiaeth

Dydd Llun, Mehefin y nawfed fe gafodd criw blwydddyn 10 Daearyddiaeth yr ysgol gyfle i fynd i wneud gwaith maes. Yn ffodus, roedd yr haul yn tywynnu yn y bore a doedd dim angen y *wellingtons* a'r cotiau glaw (yn wahanol i flwyddyn yn ôl!). Yn gyntaf, aethpwyd i Fetws y Coed i edrych ar effaith y llu ymwelwyr ar y pentref yn Eryri. Roedd cyfle i'r rhai mwyaf hyderus holi ymwelwyr drwy ddefnyddio holiadur a chael cyfle i gasglu gwybodaeth. Rhaid oedd gorffen y sglodion a'r hufen iâ yn gyflym er mwyn dal y bws i Gwm Idwal!

Y dasg gyntaf oedd cerdded i fyny'r cwm, gyda'r gwres yn cael effaith ar bawb erbyn hyn. Braf oedd cyrraedd ymyl Llyn Idwal i gael tipyn o seibiant a'r awel braf o'r llyn yn oeri pawb. Roedd cyfle wedyn i gerdded o amgylch llawr y cwm, dan arweiniad Mrs Harris, Swyddog Addysg Parc Cenedlaethol Eryri. Eglurodd hi sut y newidiodd y rhew y cwm yn y gorffennol. Roedd yn gyfle da i adolygu rhewlifiant ar gyfer yr arholiadau diwedd blwyddyn.

Am adref wedyn a phawb wedi mwynhau diwrnod yn harddwch Eryri (ac wedi dysgu rhywbeth, gobeithio!)

Gwyddoniaeth Torri Rhododendrons

Shaun Thomson yn torri coed.

Fe fu disgyblion Blwyddyn 9 yn gweithio'n galed yn llifio, llusgo a llosgi planhigion Rhododendron yng Nghraflwyn o dan arweinyddiaeth Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dygwyd *Rhododendron ponticum* i Brydain 200 mlynedd yn ôl i addurno gerddi mawr crand y boneddigion.

Mae'r planhigyn yn tyfu yn gyflym iawn yn hinsawdd a phridd asidig gogledd Cymru ac wedi ymledu drwy ardaloedd gwledig gogledd Cymru.

Os na wneir ymdrech i reoli'r Rhododendron bydd yn debygol o ledaenu yn gyflymach nag y mae ar hyn o bryd. Bydd hyn nid yn unig yn peri lleihad mewn amrywiaeth a nifer planhigion a bywyd gwyllt, ond bydd hefyd yn effeithio ar dir sydd ei angen ar gyfer amaeth a choedwigaeth.

Wythnos Drawsgwricwlaidd

Blwyddyn 7 wedi cyrraedd y Barics.

Yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf cynhaliwyd wythnos brysur iawn o weithgareddau i flynyddoedd 7, 8 a 9. Nid oedd y tywydd yn ffafriol iawn ond gwnaethpwyd y gorau o'r cyfnodau heulog! Dyma adroddiadau gan y disgyblion eu hunain:

Blwyddyn 7

Dyma sylwadau am weithgareddau blwyddyn 7 gan griw o ferched 7N: Chloe Marie Roberts, Bethan Jones, Angharad Mair Owen, Rebecca Parry, Ashleigh Owen, Kelsey Collins, Gwawr Lloyd Jones ac Emma Smith.

* * *

I ddechrau'r wythnos aethom i'r chwarel. Yn gyntaf aethom i Gastell Dolbadarn cyn cerdded y llwybr sig-sag i fyny at y barics. Roeddem yn hoffi gweld y golygfeydd anhygoel wrth edrych i lawr o'r barics.

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Ar ddydd Mawrth aethom ar y cwrs rhaffau a'r *'zip wire'* yn Blue Peris, Dinorwig. Roedd y diwrnod yn hwyl!

Dydd Mercher cawsom hwyl yn yr Amgueddfa Lechi yn gwneud gwaith celf. Roeddem yn gorfod gwneud poster ar thema'r chwarel. Cyn i un o'r staff ddewis y gorau roedd pawb yn nerfus iawn ond roedd y posteri i gyd yn ddiddorol.

Dydd Iau arhosom yn yr ysgol i wneud gweithgareddau cerddoriaeth yn yr ystafell gyfrifiaduron. Roeddem yn defnyddio rhaglenni fel 'e-jay' i gyfansoddi cerddoriaeth dawns, rêf a hip hop.

Ar y dydd Gwener aethom ar drip cerdded hir i Landdwyn gyda gweddill blwyddyn saith. Cerddom drwy'r goedwig cyn mynd i gerdded ar lân y mor.

Yn ein barn, ni y gweithgaredd wnaethom ei fwynhau fwyaf oedd y daith i Landdwyn. Cawsom hwyl yn cerdded ar hyd y traeth ac i'r goedwig.

Blwyddyn 8

Dyma sylwadau gan Ffion, Danielle, Hayley, Kieran a Ben, 8I, am eu wythnos hwy:

* * *

Ar ddydd Llun gwnaethom weithgareddau Ffrangeg, sef coginio *'croque monsieur'* (a'i fwyta – iym!) a gwneud gwaith ymchwil am wledydd sy'n siarad Ffrangeg ar draws y byd.

Gweithgaredd Mathemateg oedd ar ddydd Mawrth – sef llwybr datrys problemau o gwmpas yr ysgol.

Beicio o Gaernarfon i Fryncir ac yn ôl oedd gweithgaredd dydd Mercher – sef 24 milltir! Er gwaethaf y glaw dyma oedd hoff weithgaredd Kieran a Ben am eu bod wedi cael hwyl gyda'u ffrindiau.

Ar y dydd Iau aethom i Eglwys Sant Mihangel i astudio'r cerrig beddi er mwyn casglu gwybodaeth am filwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

I orffen yr wythnos roedd diwrnod o weithgareddau drama – sef gemau, smalio bod yn bobl eraill a llunio hysbyseb. Hoff weithgareddau Ffion, Danielle a Hayley oedd y Coginio, gwaith Dyniaethau a Mathemateg.

Diolch iddynt am eu sylwadau

Celf – Amgueddfa Lechi, Llanberis

Diwrnod Masnach Deg

Ar ddydd Gwener, 4 Gorffennaf, daeth disgyblion blwyddyn 9 at ei gilydd i'r neuadd ar gyfer Diwrnod Masnach Deg yr ysgol. Bwriad y diwrnod oedd i godi ymwybyddiaeth ymysg y disgyblion o ystyr Masnach Deg a gwerth prynu nwyddau masnach deg.

Yn ystod y wers gyntaf rhoddodd Angela Roberts gyflwyniad i'r disgyblion ar yr hyn yw Masnach Deg. Wedi hynny rhannwyd y disgyblion fel eu bod yn gallu cymryd rhan mewn dau allan o bump gweithgaredd amrywiol. Y gweithgareddau oedd: creu arddangosfa Masnach Deg; gweithdy masnach deg; coginio bisgedi yn defnyddio cynhwysion masnach deg; dylunio bocs i werthu bisgedi'r disgyblion; gweithdy tlodi.

Ar ddiwedd y diwrnod roeddem i gyd wedi dysgu mwy am sut y medrwn wneud cyfraniad i leddfu tlodi byd-eang ac wedi dod i ddeall pam y dylem wneud ymdrech i brynu nwyddau masnach deg.

Aduniad Ysgol Brynrefail 50 mlynedd

Aduniad i'r rhai hynny a ddechreuodd yn yr ysgol yn 1958, neu a ymunodd â'r flwyddyn.

Yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, o 7 o'r gloch ymlaen ar Fedi 13eg 2008. Croeso i bartneriaid. Pris: £12, yn cynnwys pryd basged.

Cysylltwch â Beti Wyn Williams (Jones gynt) 01248 722305: gwilymw@llangefni9218.freeserve.co.uk
neu Anita (Williams gynt) a Michael Butler 01248 681059: michael.butler130@virgin.net

Atgofion Hen Sgotwr

Fel y gwnes addo y tro diwethaf, rwyf am drafod y pum llyn arall yn ardal Llanberis. Rhaid cyfaddef cyn dechrau mai dim ond unwaith neu ddwy yr wyf wedi pysgota dau ohonynt, y ddau lyn pellaf o'r pentref, felly rwyf am drafod y ddau lyn yma'n gyntaf.

Y pellaf a hefyd yr un mwyaf anghysebell yw Llyn y Cŵn. Sawl un ohonoch, tybed, sy'n gyfarwydd â'r llyn hwn, neu hyd yn oed yn gwybod lle y mae. Wel, os yr ewch i fyny o Nant Peris am y Glyder, ar y pen uchaf cyn cyrraedd y Twll Du fe welwch Llyn y Cŵn. Llyn digon bychan ydyw a nant yn rhedeg ohono i'r Twll Du. Mae ynddo frithyll, ond rhai bychan ydynt, yn ddu ac yn denau ond yn codi'n ddigon amal. Un waith y bûm yn ei sgota.

Llyn arall yn y fro yw Llyn Cwm Ffynnon, mae hwn yr ochr arall i'r boncen sydd y tu ôl i Westy Pen y Pas. Mae yna bysgod yn hwn a chefais lawer i helfa dda yno. Ond eto, mae'n rhaid cyfaddef mai rhai digon bychain oeddynt. Tua chwech i saith modfedd ond ambell un yn ddeg modfedd. Yr amser gorau i bysgota hwn oedd mis Gorffennaf neu Awst ar ddiwrnod braf, ond mae gofyn cael gwynt. Y plu gorau oedd rhai duon neu Coch-a-Bonddu.

Llyn arall yn yr ardal y bûm yn pysgota llawer arno yn y chwe degau cynnar oedd Llyn Penygwryd. Yr amser hynny roedd gorsaf betrol o'i flaen, ac yno y byddem yn cael caniatâd. Roedd pysgod o faint da i'w cael yno a byddwn yn myn dyn aml efo Bert Parry. Pum swllt, neu 25c yn arian heddiw, oedd y gost i bysgota trwy'r dydd gyda chwch i'r ddau ohonom. Mae gennyf atgofion da am y llyn hwn.

Llyn arall oedd Llyn Du'r Arddu, ond roedd hwn yn bell ac ni chefais erioed fawr o hwyl arno. Roedd yn lle i godi ofn ar rywun. Ar ochr y llyn mae carreg enfawr ac mae traddodiad yn sôn bod tylwyth teg yn dawnsio arni, ond chefais i erioed y fraint o'u gweld nac ychwaith eu clywed. Yn y fan yma hefyd, os digwyddwch fod yno ar yr amser iawn, sef tua diwedd mis Mai, fe gewch y fraint o weld Lili'r Wyddfa, ond mae gofyn i chi fod yn lwcus iawn.

Y llyn olaf rwyf am gyfeirio ato yw Llyn Tomos Lewis. Fel y gŵyr rhai ohonoch, hen dwll chwarel wedi ei lenwi â dŵr yw hwn, a nant fechan yn rhedeg ohono i Lyn Padarn. Roedd pysgod gwerth eu cael yn y twll ond nid pawb oedd am eu bwyta. Credai rhai eu bod yn tyfu locsyn, ond welais i erioed un. Y ffordd orau i'w bachu oedd gyda sboncyn gwair wedi ei roi ar y bachyn a'i daflu i'r dŵr. Y peth nesaf a welech oedd ceg fawr yn agor, a dyna i chi gwffas gwerth ei chael wedyn.

Do, fe gefais lawer diwrnod i'w gofio yn pysgota'r hen dwll.

Wel, dyna ni wedi bod ar ochr pob llyn yn yr ardal, ac os gorfodid fi i sgwennu am bob pysgodyn i mi eu bachu yn y llynnoedd, mi fuasem wrthi am beth amser. Cofiwch mae hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers i mi fachu y cyntaf un yn Afon Goch.

Cyngor Cymuned Llanrug

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn ystod mis Mai yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug:

Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Agorodd y clerc y cyfarfod a gofyn am gynigion ar gyfer Cadeirydd i'r Cyngor am 2008–09. Cafodd Eryl Roberts ei chynnig gan Goronwy Hughes ac eilwyd hyn gan Brian Jones a ddymunodd pob lwc iddi.

Cymerodd y Cadeirydd newydd y Gadair a gofynnodd a oedd rhywun am gynnig Is-Gadeirydd. Am nad oedd pawb yn bresennol yn y cyfarfod, penderfynwyd gohirio penodi tan y cyfarfod nesaf yn mis Mehefin.

Trafodwyd y seddi gwag – tair ar ward Llanrug ac un yng Nghwm y Glo. Holwyd a ddylai'r seddi gael eu hysbysebu ac a ddylid cynnal pleidlais os derbynid mwy o gynigion na seddi gwag. Addawodd y Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ddarganfod yr atebion erbyn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynodd y Clerc yr Adroddiad Ariannol Blynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008. Dywedwyd y dylai pawb ystyried beth y dylid gwario arian 2008–09 arno erbyn y cyfarfod nesaf, pryd y byddai'n rhaid llunio Cyllideb 2008–09. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei gwaith o lunio'r adroddiad ariannol a chlöwyd y cyfarfod blynyddol.

* * *

Cofnodion y cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd yn ystod mis Mai yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug:

Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Adborth gan y pensaer am y prosiect i ddatblygu Cae Chwarae Cwm y Glo:
Eglurodd y clerc fod y pensaer wedi ei ffonio ac yn ymddiheuro na allai fod yn y cyfarfod heno oherwydd salwch ond y byddai'n anfon cynlluniau bras iddi erbyn diwedd yr wythnos a fyddai wedyn yn cael eu hanfon ymlaen i'r cynghorwyr.

Y Fynwent
Dywedodd y Cadeirydd fod criw o'r cynghorwyr wedi bod yn y fynwent yn arolygu'r gwaith a wnaethpwyd i ailgodi'r waliau a'u bod wedi eu plesio'n arw gyda beth a welsant.

Dywedwyd bod angen newid enw'r clerc ar yr hysbysfwrdd.

Trafodwyd cyflwr y biniau yn y fynwent ar adegau prysur, megis Pasg, Sul y Mamau, Nadolig ac ati a bod lorïau ailgylchu yn rhy fawr i fynd at y fynwent. Penderfynwyd llunio nodyn cwrtais yn gofyn i bawb fynd â'u sbwriel adref gyda hwy a'i arddangos ar yr hysbysfwrdd.

Llwybrau Cyhoeddus
Penderfynwyd y dylid cyfarfod yn fuan er mwyn symud ymlaen gyda hyn. Penderfynwyd gofyn i Dafydd Whiteside Thomas a fyddai'n fodlon helpu gyda hyn fel ymgynghorydd oherwydd ei wybodaeth am y pwnc, a bod pedwar arall hefyd yn rhan o'r trafodaethau fel y penderfynwyd mewn cyfarfod blaenorol.

Dywedodd y clerc ei bod wedi derbyn galwad ffôn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddent yn ad-dalu y swm a briswyd am dorri'r llwybrau gan y contractwr ac y byddai llythyr yn cael ei dderbyn yn y man yn cadarnhau hyn.

Cynllunio. Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Codi adeilad unllawr ar gyfer storio biniau, Ysgol Gynradd Llanrug.
- Dymchwel yr adeilad allanol presennol a chodi modurdy a storfa newydd, Tyddyn Rhyddid, Llanrug.
- Dymchwel y sied presennol a chodi sied newydd, Rhan o Lleiniau, Llanrug.
- Estyniad unllawr i'r cefn: Tai'r Lôn, Llanrug.

Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi gwrthod y cais canlynol:

- Newid defnydd coedlan i barc beicio ynghyd â newid defnydd canolfan heini i fan llogi, trwsio a gwerthu beiciau, Safle Marconi, Ceunant.

Daeth y ceisiadau newydd canlynol gerbron y cyngor cymuned:

- Creu agoriad newydd i gerbydau, llain o dir rhif 0941, Pen y Cae, Ffordd Llanberis: Penderfynwyd nad oedd digon o wybodaeth sylfaenol gerllaw i'r cynghorwyr wneud penderfyniad ar y cais.
- Ymestyn cwrtil presennol y tŷ (cais ôl weithredol), Sŵn y Gwynt, Pontrug: Dim gwrthwynebiad.
- Cais amlinellol i godi tŷ (ail-gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd, llain o dir cyfagos i 1 Bryn Gro, Cwm y Glo. Penderfynwyd i wrthod y cais yn gryf iawn ar sail mynediad.
- Ymestyn modurdy presennol i greu modurdy dwbl, Bwthyn y Grug, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Dim gwrthwynebiad.

Cynigwyd bod llythyr yn cael ei anfon at Hywel Thomas yn ei wahodd ef neu un o'i swyddogion i gyfarfod y cyngor i drafod y broses o drafod a chymeradwyo cynlluniau.

Penderfynwyd i gyfrannu'r symiau canlynol o arian: Cymdeithas y Byddar: £30; Cyngor ar Bopeth: £30; Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr: £30; Eglwys Sant Mihangel: cyfraniad o £140 tuag at dorri gwair yr hen fynwent am y flwyddyn 2008–09.

Derbyniwyd cais gan Seindorf Arian Llanrug yn gofyn am nawdd ychwanegol i helpu tuag at ariannu'r adeilad newydd. Datganodd Avril Jones ddiddordeb. Cytunwyd bod angen mwy o wybodaeth ariannol am y prosiect cyn gallu gwneud penderfyniad pendant. Penderfynwyd i gyfrannu mewn egwyddor ond i ohirio penderfynu ar swm pendant nes derbyn y wybodaeth ariannol angenrheidiol.

Gwerthiant Pwll Moelyn
Dywedodd y clerc bod y ddau gytundeb bron â chael eu cwblhau. Yr hyn oedd yn dal popeth yn ôl oedd y Comisiwn Elusennau – nad oedd llythyr ganddynt yn cadarnhau eu bendith i fynd ymlaen gyda'r gwerthiant. Gobeithir cael hyn yn fuan.

Gohebiaeth
Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd oedd copi o'r cod ymddygiad newydd a ffurflen Datganiad Derbyn Swydd. Arwyddodd y Cynghorwyr presennol y datganiadau ac addawodd y clerc ddosbarthu copïau i'r cynghorwyr absennol y noson ganlynol.

Cwynion
Derbyniwyd cwynion am y diffyg lleoedd parcio ar hyd Ffordd Glanmoelyn ac am geir yn parcio yn rhy agos i fynedfa ffordd gefn Glan Moelyn sydd yn ei gwneud yn beryglus i yrrwyr sy'n dod o'r lôn gefn. Penderfynwyd gyrru llythyr arall i Gyngor Gwynedd yn gofyn a ydynt bellach wedi ystyried ffyrdd o ddatrys y broblem hon ers ein llythyr diweddar.

* * *

Cofnodion cyfarfod mis Mehefin a gynhaliwyd yn Ysgol Cwm y Glo.

Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Penodi Is Gadeirydd
Penodwyd Avril Jones yn Is-Gadeirydd a dymunodd pawb yn dda iddi

Adborth gan y pensaer am y prosiect i Ddatblygu Cae Chwarae Cwm y Glo:
Cyflwynodd John Pritchard ei gynllun gan ddosbarthu copïau o ddarluniau o'i syniad. Dywedodd mai canolbwynt y parc fyddai cae pêl-droed/chwaraeon a fyddai gyda lle arbennig i bobl gael gwylio. Derbyniwyd y cynllun yn gynnes iawn gan y cynghorwyr, nifer yn falch bod lleoedd parcio wedi eu cynnwys ac yn holi a fyddai modd cynyddu'r nifer. Trafodwyd amcan bris y prosiect a chynigiodd y pensaer



amcan o tua £45,000–£50,000.

Dywedodd y Cynghorwyr eu bod yn hapus mewn egwyddor ond y dylai pobl y pentref gael cyfle i roi eu barn. Cytunwyd y byddai'r cynllun yn cael ei drafod yn lleol ac y byddai'r pensaer wedyn yn addasu'r cynlluniau ac yn eu harddangos yn y pentref wedi hynny.

Cyllideb 2008–09
Trafodwyd cyllideb drafft 2008–09.

Cynllunio. Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Cais ôl-weithredol i ddymchwel ac ailadeiladu tŷ: Tan y Ffridd, Cwm y Glo. Mynegwyd siom fod y cais hwn wedi ei ganiatáu.
- Ymestyn modurdy presennol i greu modurdy dwbl: Bwthyn y Grug, Ffordd Glanffynnon.
- Ymestyn cwrtil presennol y tŷ: Sŵn y Gwynt, Pontrug.
- Estyniad llawr cyntaf ar ochr yr eiddo, Bronallt, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.
- Trosi adeilad ceir gwag i 5 uned byw fforddiadwy: Ceir Cwm, Cwm y Glo. Eto, mynegwyd siom fawr fod y cais hwn wedi ei ganiatáu gan bod y cyngor wedi ei wrthwynebu'n gryf.

Daeth y ceisiadau newydd canlynol gerbron y cyngor cymuned:

- Estyniad deulawr ar yr ochr a phorth ar flaen yr eiddo, 14 Glan Moelyn, Llanrug: Dim gwrthwynebiad.
- Estyniad llawr cyntaf ar ochr yr eiddo, Bronallt, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Wedi ei ganiatáu eisoes – dim am fynegi barn felly.
- Codi 4 sied gardd, mân newid i un tŷ i gynnwys ffenestr newydd a thanciau nwy: Tai Bryn Gwyn, Tan y Coed, Llanrug: Dim gwrthwynebiad.
- Cais amlinellol i godi un tŷ dormer fforddiadwy: Tir Fron Hyfryd, Ffordd yr Orsaf, Llanrug: Dim gwrthwynebiad.

Heddlu
Dywedodd y clerc ei bod wedi methu cysylltu gyda PC Kennedy, er ei bod wedi gadael negeseuon ar ei ffôn droeon. Dywedodd AP y byddai yn cysylltu gydag ef ac yn gofyn iddo fynychu cyfarfod. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu llythyr dwyieithog yn egluro bod y ffurflen wedi ei hanfon fisoedd yn ôl ac yn estyn gwahoddiad iddo i gyfarfod mis Hydref.

Gwerthiant Pwll Moelyn
Dywedodd y clerc eu bod mewn sefyllfa i arwyddo'r cytundebau. Gobeithir gwneud hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

Enwebiadau ar gyfer y seddi gwag
Dywedwyd fod tair wedi cynnig eu hunain yn ysgrifenedig a bod un o'r cyn-gynghorwyr yn awyddus i ailymuno ar ward Llanrug. Penderfynwyd derbyn Derfel Jones, Meirwen Lloyd, Nan Humphreys a Rhian Thomas fel cynghorwyr i lenwi seddi gwag y cyngor. Penderfynwyd ysgrifennu llythyrau iddynt yn eu derbyn yn ffurfiol gyda chopi o'r cod ymddygiad newydd a'r ffurflen derbyn swydd.

Gohebiaeth
Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd oedd gwahoddiad gan First Hydro i hyd at 5 o'r cynghorwyr ymweld â'r cwmni ar 25ain o Fehefin, 2008 i weld y gwaith diweddar a wnaethpwyd i ymestyn Marchlyn Mawr. Roedd 4 yn awyddus iawn i fynd ar ran y Cyngor.

Cwynion/Pryderon
Mynegwyd pryder rhag ofn fod gwaith sydd yn cael ei wneud yn Gwelfor, Tai Trefor, yn amharu ar y gwaith atal llifogydd a gafodd ei gario allan yn gynharach gan Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt arolygu'r safle.

* * *

Cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a gynhaliwyd yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug:

Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Heddlu
Eglurodd y clerc fod PC Kennedy wedi cysylltu a'i fod am ddod yn ôl ati i drefnu dyddiad cyfleus iddo fynychu cyfarfod y cyngor. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr ato i'w atgoffa.

Llwybrau Cyhoeddus
Adroddodd y clerc fod dynes wedi cwyno am nad oedd y llwybr ger ei thŷ wedi ei dorri y flwyddyn yma, er ei fod wedi ei dorri y llynedd. Eglurwyd mai gwaith ychwanegol oedd hyn llynedd a phendefynwyd y dylid cael cadarnhad y byddai Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r gost cyn cytuno i wneud y gwaith. Dywedodd y clerc y byddai'n cael amcan bris gan y contractiwr ac yna'n cysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Penderfynwyd hefyd i gysylltu gyda'r ddynes a gofyn iddi hi ffonio Cyngor Gwynedd ei hun i wneud yr un cais. Dywedwyd hefyd y dylai hyn gael ei wneud ar gyfer darn arall o lwybr ger Gelliod.

Cynllunio. Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Estyniad deulawr ar yr ochr a phorth ar flaen yr eiddo: 14 Glan Moelyn.
- Codi 4 sied gardd, mân newid i un tŷ i gynnwys ffenestr newydd a thanciau nwy, Tai Bryn Gwyn, Tan y Coed, Llanrug.

Daeth y ceisiadau newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

- Codi ystafell haul un llawr ar flaen yr eiddo – Afonwy, Pontrug. Dim gwrthwynebiad.
- Estyniad deulawr ar gefn yr eiddo: 2 Y Bonc, Bryn Bras, Llanrug. Dim gwrthwynebiad, ond y Cynghorwyr yn teimlo ei fod braidd yn rhy llydan.
- Gwaith i goed a warchodir gan orchymyn diogelu coed, gan gynnwys dymchwel coed sydd â chlefyd, Parc Gwyliau Brynteg, Llanrug. Dim gwrthwynebiad cyn belled â bod cyfiawnhad dros wneud ac y bydd swyddog annibynnol yn archwilio'r coed ar ran Cyngor Gwynedd.
- Estyniad llawr cyntaf ar ochr yr eiddo: Bwlch cottage, Cwm y Glo. Ar ôl cael caniatad gan y cynghorwyr eraill, darllenodd y Cadeirydd lythyr a ddaeth i'r cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar ôl i'r cynghorwyr dreulio amser yn edrych ar y cynllun. Penderfynwyd gwrthwynebu ar y sail fod yr adeilad wedi ei or-ddatblygu eisioes.
- Codi 8 tŷ fforddiadwy: tir dros y ffordd i Garej Hafod, Llanrug. Gwrthwynebu'r cais ar y sail nad oes angen tai fforddiadwy yn y pentref – yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd a roddodd Llanrug ar waelod y tabl o bentrefi a threfi'r sir sydd angen tai fforddiadwy.
- Codi modurdy unllawr i dŷ newydd: Afon Rhos, Llanrug: Gwrthwynebu yn unol â gwrthwynebiad y cyngor am gynllun y tŷ.
- Estyniad deulawr ar ochr yr eiddo, estyniad llawr cyntaf a throsi adeilad allanol yn rhan o'r annedd: Bryn Glas, Ceunant. Gwrthwynebu'r cais ar y sail ei fod wedi ei or-ddatblygu eisioes.
- Cais amlinellol i godi 12 annedd yn cynnwys 2 dŷ fforddiadwy: Pen Cae, Ffordd Llanberis, Llanrug.

Penderfynwyd gwrthwynebu gan ei fod y tu allan i'r ffinniau datblygu a bod cais blaenorol hefyd wedi ei wrthwynebu gan y cyngor cymuned.

Y Fynwent
Cafwyd sylwadau fod y fynwent yn edrych yn daclus iawn.

Gwerthiant Pwll Moelyn
Y cytundebau byth wedi eu harwyddo gan fod y cyngor yn dal i ddisgwyl am ymateb y Comisiwn Eluscnnau i lythyr y Cyngor Cymuned a yrrwyd yn dilyn cyngor gan y cyfreithiwr.

Cwynion/Pryderon
Trafodwyd yfed o dan oed yn Llanrug a phroblemau fandaleiddio. Dywedwyd fod angen i'r heddlu ddod yma eto i drafod hyn. Penderfynwyd gofyn i'r clerc gysylltu gyda PC Kennedy a gofyn iddo a fyddai yn gallu mynychu cyfarfod mis Awst oherwydd difrifoldeb y mater.

Cafwyd cŵyn gan un o drigolion Stâd Minffordd am eithin yn tyfu ar draws y llwybr sy'n cael ei ddefnyddio i fynd â'r plant i'r ysgol. Dywedodd ER ei bod am wneud llythyr yn bersonol am y llwybr oherwydd ei damwain ddiweddar a phenderfynwyd gyrru llythyr gan y Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd dorri'r eithin.

Gofynnwyd a oedd unrhyw un eisiau mynychu cyfarfod blynyddol Cymdeithas Tai Eryri. Yn anffodus, ni allai neb fynychu ar ran y Cyngor.

Dywedodd ER ei bod hi a CW wedi bod yn First Hydro ac wedi cael croeso mawr yno. Mi wnaethant fwynhau bwffé a thrip ar y bws.

Gohebiaeth
Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd oedd y canlynol:

Gorchymyn gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – Lôn Groes, Llanrug. Y gorchymyn yn dod i rym ar 21ain o Orffennaf, 2008. Nid oedd gwrthwynebiad iddo, felly nid oedd angen ymateb gan y Cyngor.

Rhybudd y byddai gwaith ar raglen gwella cludiant i Ysgol Brynrefail yn cychwyn ar 21ain o Orffennaf ac yn parhau am 6 wythnos.

Cais wedi ei dderbyn gan Seiont Manor i amrywio trwydded eiddo.

Rhybudd yn hysbysu'r Cyngor o fwriad BT i gael gwared â chiosg ffôn yn Ceunant.

Ymhlith y gohebiaeth arall a dderbyniwyd oedd y canlynol:

Ombwdsman: Copïau o daflenni diwygiedig 'Sut i gwyno bod aelod o awdurdod lleol wedi torri'r cod ymddygiad'. Rhannwyd copi i bawb a dywedodd y clerc y byddai'n gyrru copi i'r cynghorwyr nad oedd yn bresennol.

Alun Ffred Jones AC: Papur ymgynghori ar dai fforddiadwy yng nghefn gwlad. Annog i'r cynghorwyr ei ddarllen a datgan eu sylwadau. Penderfynwyd y byddai pawb yn darllen y ddogfen ac yn ei phasio ymlaen rhwng y cynghorwyr.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Blodau Racca
(Alwyn a Sarah Jones)
Ffôn: 870605
- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 15ed o Orffennaf. Dechreuwyd, fel arfer, trwy weddi.

Cyfethol aelodau. Cafodd y Clerc wybod o Swyddfa Canlyniadau Gwynedd, o'r diwedd, nad oedd angen hysbysebu seddi ar y Cyngor oherwydd bod hynny wedi ei wneud cyn yr etholiad ar y 1af o Fai 2008. Cyfetholwyd: Gwilym Williams, Elspeth Mitcheson, Phylip Jones a Merfyn Morris.

Derbyniwyd cofnodion y 3ydd o Fehefin fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Pileri llechi Cae Hywel. Ateb Mr Meirion Williams, Gwynedd, na allai fod o gymorth yn y mater gan bod y perchennog, o bosib, wedi dymchwel y pileri fel mater o ddiogelwch. Penderfynwyd ei ateb trwy bwyso ar y pwysigrwydd o gadw pileri o'r math yma gan eu bod yn unigryw i'r ardal chwarelyddol a bod angen gwarchod rhai eraill, fel wrth ochr llwybrau Teras, Clwt y Bont ac o ysgol Dinorwig at Gapel Sardis. Danfonir copïau o'r llythyr gwreiddiol a'r ateb i'r Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa Llechi Cymru, Llanberis.

Gor-yrru. Llythyr Mr Euron Hughes, Seion, yn rhyfeddu at gofnod y Cyngor yn *Eco'r Wyddfa* nad oedd gor-yrru trwy Seion. Penderfynwyd egluro iddo nad barn y Cyngor oedd hyn ond adroddiad a dderbyniwyd ar ran Cyngor Gwynedd. Gan mai dyma'r cais cyntaf i'r Cyngor ei dderbyn ynglŷn â'r gor-yrru, penderfynwyd cefnogi'r cais a gofyn i Wynedd am 20 m.y.a. hefyd trwy Fachwen ac o ysgol Rhiwlas at y Sgwâr.

Tai Fforddiadwy. Cyflwynwyd holiadur Gwynedd a phenderfynwyd cael copi i bob aelod a'i adolygu ym mis Medi. Ystyrir talu am eu postio i holl anneddau'r gymuned yn hytrach na'u rhannu o dŷ i dŷ gan aelodau. Awgrymodd Elspeth Mitcheson gwtogi'r holiadur i rhyw chwe cwestiwn syml ac ychwanegodd Len Jones y bydd rhaid cael sêl bendith Gwynedd i hyn.

Arwyddion Trafnidiaeth Trwm. Ateb Mr D. W. Williams, Gwynedd yn dweud yr hoffai gael lleoliadau penodol er mwyn eu hasesu. Enwyd y troad at Bost Clwt y Bont a bod y ceir sy'n parcio o flaen ystâd Bryn Tirion, Penisa'rwaun, yn achosi anawsterau i gerbydau mawr.

Dryll, Deiniolen. Ateb Mr D. W. Williams, Gwynedd, bod trafodaeth ar hyn o bryd rhwng perchnogion Bryn Awelon, Gwasanaethau Cyngor Gwynedd a'r Heddlu, i geisio gwella'r sefyllfa a dylai'r mater gael ei ddatrus yn fuan.

Mynwent Macpelah, Deiniolen. Ateb Mr Meirion Williams, Gwynedd, bod y meini wedi eu glanhau yn ddiweddar ond ni chafwyd y staeniau i ffwrdd rhag gwneud drwg i wyneb y meini. Cynhelir archwiliad o'r meini coffa gan saer maen yn fuan.

Swyddfeydd Post. Derbyniwyd y drefn ynglŷn â chau 2,500 o swyddfeydd yn yr DU. (Ar ôl y Cyfarfod sylwyd bod cyfarfod yn Galeri, Caernarfon, ar 19eg o Awst. Cynrychiolir y Cyngor yn y cyfarfod gan y Cadeirydd.)

Y Ffordd i bentref Rhiwlas. Derbyniwyd cadarnhad Gwynedd y gwneir y gwaith ailwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Plismon Defaid. Eglurodd y Prif Uwch Arolygydd Geraint Anwyl pam y gwnaed i ffwrdd â'r Plismon defaid – bydd gwaith y Swyddog Amaeth yn rhan o gyfrifoldebau'r holl swyddogion sydd yn ffurfio'r Timau Plismona Cymdogaethau trwy'r gogledd.

Gorsaf Bwmpio Brynrefail. Daeth ateb Mr Elwyn Jones, Dŵr Cymru, i'n llythyr dyddiedig Rhagfyr 2007! Mae cynllun ar y gweill, mewn cysylltiad â Costains, i leihau'r dŵr sy'n mynd i mewn i'r Orsaf Bwmpio yn ystod glaw mawr. Cwblheir y gwaith cyn diwedd Ebrill 2009.

Gohebiaethau eraill

Un Llais Cymru

Daeth gwahoddiad i Gynghorwyr fynychu Hyfforddiant ond nid oedd dyddiad na lle – gofyn am fanylion.

Alun Ffred Jones

'Ymgynghoriad ar newidiadau i'r polisi cynllunio i gefnogi datblygiad cynaladwy mewn ardaloedd gwledig' – gwneud copi i bob aelod.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 'Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol' gwnaed copi i bob aelod.

Rhwydwaith Beicio Dyffryn Peris. Derbyniwyd adroddiad Mr Dafydd Whiteside Thomas – copi i bob aelod.

Deddf Drwyddedu 2003. Derbyniwyd, er gwybodaeth, gais Mr Varinder Kumar Kalsi, Y Bedol, Bethel, i estyn yr amser gwerthu diod o 11.00 hyd 01.30 bob dydd.

Derbyniwyd hefyd er gwybodaeth:

- Cynllun Partneriaeth llywodraeth leol *(o'r Cynulliad)*.
- Srategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd.
- Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi. Cynllun Plant a Phobol Ifanc, Gwynedd.
- Adroddiad Cynllun partneriaeth llywodraeth Leol 2006–2007 *(Cynulliad)*.
- Copi i aelodau – Ombwdsman – Adroddiad Blynyddol.
- Cist Gwynedd – llyfryn *Agor y Gist*.
- Hywel Williams AS. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod Hydref.
- Un Llais Cymru. Cyfarfod blynyddol ar 18ed o Fehefin yng Nghaernarfon: bydd Len Jones yn cynrychioli'r Cyngor fel arfer.
- Ciosgau Ffôn. Adroddiad Gwynedd y bydd BT yn cau'r blychau Ffôn canlynol:Seion, Llanddeiniolen; Fachwen; Penisa'rwaun.
- Dafydd Guto Ifan. Derbyniwyd ei amcanion ac argymhellion i Gymreigeiddio stampiau post. Cefnogwyd ei awgrymiadau mewn egwyddor.

Cynllunio

Derbyniwyd ateb 'Un Llais Cymru' i'r gŵyn nad yw Swyddogion Cyngor Gwynedd yn cymryd sylw o sylwadau'r Cyngor Cymuned. Mae hon yn gŵyn gyffredinol gan amryw o Gynghorau.

Trefnir sesiynnau lleol i hyfforddi Cynghorwyr maes o law. Mae modd cael hyfforddiant gan 'Cymorth Cynllunio Cymru'. Mae'r corff yma hefyd yn cynnig arweiniad ar faterion cynllunio ac maent hefyd wedi paratoi llawlyfr defnyddiol i Gynghorau Cymuned.

Penderfynwyd archebu'r llawlyfr, y cysylltiad yw Marika Fusser (01286) 882 834.

Bwriedir gwahodd Swyddog o'r Adran Gynllunio, Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Ardal Arfon ac, o bosib, Swyddog o Adran Gyfreithiol Gwynedd i un o'r cyfarfodydd ardal.

Ceisiadau Cynllunio

Cais a wrthodwyd gan Wynedd:

- Dymchwel yr adeilad presennol a chodi tŷ: tir ger 1, Carfan, Pentir. Hefin Williams ac Elspeth Mitcheson eisiau copi o'r rhesymau pam y'i gwrthodwyd.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

- Estyniad: Ysgubor, Penisa'rwaun.
- Estyniad a newidiadau i'r tŷ a chodi garej: Cae Goronwy, Fachwen.
- Datblygiad preswyl: llain o dir tu cefn i'r hen bowling green, Deiniolen.
- Adeiladu tŷ unllawr: gardd Gwynant, Saron, Bethel.
- Dymchwel y porth ac adeiladu ystafell wydr: Tŷ Cefn, Llanddeiniolen.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

- Addasu capel ac ysgoldy i 14 uned breswyl: Capel, Brynrefail.
- Estyniad ochr: 2, Efail Castell, Pentir.
- Adeiladu tŷ deulawr a mynedfa: llain o dir cyfagos i Monfa Cottage, Brynrefail.
- Estyniad ochr ac adeiladu modurdy: Swyn Eryri, Bethel.

Llwybrau

Ateb Mr Gerallt Jones, Gwynedd. Ni fydd y Cyngor yn gosod gât o'r llwybr cyhoeddus i Dai Preswylfa, Clwt y Bont, ac awgryma i ni ofyn i Gymdeithas Tai Eryri. Archwilir cyflwr y llwybr yma a gweithredu yn ôl yr angen. Nid yw'r gât i'r tir lle mae cais cynllunio Tŷ Oer yn eiddo i'r Cyngor ychwaith, mater fydd hyn i'r datblygwr.

Gwneir archwiliad o lwybrau Rhiwlas (a fanylwyd ar fap gan Hefin Williams).

Ad-daliadau torri gwair. Yn ôl llythyr Mr Aled Davies yng Ngorffennaf 2007 roedd toriadau sylweddol i fod yn yr ad-daliad ond, yn ôl ei lythyr y mis yma, dylai'r taliad fod yn debyg i daliad y llynedd.

Materion ychwanegol

Cyfeiriodd Hefin Williams at y mapiau llwybrau a archebwyd o Wynedd, addawodd y Clerc eu hatgoffa.

Gofynnwyd am restr o'r llwybrau y torrir gwair arnynt.

Adroddiadau

Derbyniwyd adroddiadau Elspeth Mitcheson o gyfarfodydd y mudiadau canlynol:

- Ymgynghoriad Gwasanaeth Iechyd.
- Parc Padarn.
- Gwynedd ar y Cyd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2il o Fedi 2008.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)

CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

Ar Ben Arall y Lein

Pysgota yw crefft hamddenol fwyaf poblogaidd Prydain, gyda thros 4 miliwn yn cymryd rhan yn rheolaidd. Dyna'r ffigwr swyddogol, ond mae'n amlwg fod llawer mwy yn chwipio gan fod pla yn ardal y Gymdeithas o rai yn tramwyo ein dyfroedd heb ymaelodi na chwaith godi trwydded Asiantaeth yr Amgylchedd. Y llefydd mwyaf poblogaidd i rai ei thrio hi yw Llyn Padarn, gwaelod yr Afon Seiont yng Nghaernarfon a phyllau isaf Afon Llyfni.

Mae'r aelodau, ar adegau, yn teimlo'n reit anfodlon siarad â rhain gan eu bod yn gallu bod yn fygythiol. Efallai bod ymddygiad fel hyn yn adlewyrchu sut mae rhai pobl yn byw heddiw – eisiau popeth am ddim a dim eisiau cyfrannu at ddim byd o gwbwl. Beth yw'r ateb? Wel yr unig ateb wela i, a dyma be sy'n cael ei awgrymu i bob un o'n haelodau – unrhyw drafferth neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ffôn i'r heddlu yn union. Nid yw'r Gymdeithas yn fodlon derbyn unrhyw gamwedd o'n hawliau nac unrhyw ymddygiad bygythiol tuag at ein haelodau chwaith.

Mater trist ofnadwy yw gorfod tynnu sylw at broblem fel hyn, sy'n amlwg yn cynyddu yn ein mysg, ond fel'na yn anffodus mae pethau'n mynd. Dim ond yr wythnos ddiwethaf bu'n rhaid i'r aelodau sy'n gwarchod y ddeorfa gysylltu â'r heddlu, gan fod nifer a ganŵwyr wedi malu eiddo'r clwb islaw Pont Crawia.

At bwnc llawer mwy pleserus – mae rhai sy'n ymweld â'r ardal yn parchu ac yn gwerthfawrogi be sy'n cael ei gynnig iddynt fel cyfleusterau 'sgota. Eleni, mae rhai o'n dosbarthwyr tocynnau wedi rhedeg allan oherwydd y galw gan ymwelwyr. Bu'n rhaid cael ailrediad o docynnau gan yr argraffwyr, ardderchog yndê.

Mae llynnoedd Cwellyn, Dywarchen a Nantlle yn hynod boblogaidd, gyda chychod yn cael eu bwcio wythnosau 'mlaen llaw. Rhaid diolch i'r dosbarthwyr yma am eu hymroddiad. Mae yma dîm ardderchog sy'n gweithio'n eithriadol o galed i roi mwynhad i lawer.

At y 'sgota! Wel, mae'r llynnoedd yn pysgota'n eithriadol o dda. Rwyf i wedi cael oriau pleserus iawn ar Lyn Padarn, yn gynnar yn y bore ar ben fy hun yn gwylio Llanberis yn araf ddeffro, profiad arbennig! A nawr, ar ddiwedd Awst, mae'r sewin a'r eog yn dechrau dangos yn y Seiont. Y sewin trymaf a ddaliwyd hyd yn hyn yw un 5 pwys (Glan Gwna) i Stephen Lloyd o'r Groeslon, a'r eog trymaf yw un 10 pwys (Stablau ar bluen, ac wedi'i ddychwelyd i'r afon) i Richard Butterfield, Llanddeiniolen.

Mae nifer fawr o sewin yn rhedeg y Llyfni ac mae Dr Robin Parry, Llanberis, un o'r rhai fyddlon, yn cael hwyl arbennig yno. Pump torth hefyd efallai!

Mae cynllun stocio Dywarchen wedi bod yn hynod o lwyddiannus eleni eto, er bod tipyn o gwyno oherwydd y rheol dau frithyll y diwrnod i aelodau tymor. Ond rhaid ystyried bod yn rhaid ceisio balansio'r llyfrau, a'i bod yn bosib i aelodau fynd â dau 'sgodyn y diwrnod am 7 diwrnod – sef 14 o bysgod pob wythnos. Mae amcan gost magu'r brithyll braf yma oddeutu £3.00 yr un, felly gwerth £42 o bysgod i'r rhewgell yn wythnosol! Mae'n bosib gwneud hyn o fis Ebrill hyd at ddiwedd Tachwedd, ond i fod yn rhesymol, nid peth hawdd yw dal dau bob tro. Ond o ystyried y costau yma, a hefyd y ffaith bod yr holl ddyfroedd eraill ar gael, mae cost tocyn tymhorol felly yn eitha rhesymol. Does dim byd mwy pendant, fe gaf flas ar dafod gan lawer un am feiddio dweud y fath beth. Efallai y bydd rhaid rhoi galwad am gymorth gan yr heddlu!!

Diolch i'r criw fyddlon sydd wedi bod wrth eleni yn glanhau'r glannau, gwaith ardderchog ac mae llawer o sylwadau positif iawn yn dod i mewn ynglŷn â safon y gwaith eleni. Un peth, fodd bynnag, sy'n bryder yw'r nifer sy'n gadael eu cŵn faeddu'r llwybrau, yn enwedig o Bontllyfni at y môr. Glanhewch ar ôl eich anifail, os gwelwch yn dda.

HUW PRICE HUGHES

Sewin 2 bwys o'r Seiont i Ron Miers, Capel Coch.



2 sewin o'r Llyfni i Dr Robin Parry, Llanberis.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf
GOFALU AM EIN CYMUNEDAU
• ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
• GOFAL PERSONOL-BATHIO
• CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
• EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
• GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
• CEFNOGI POBL
• CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL
A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?
• Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recrwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-
Iola neu Ellis Wyn Jones ar-
Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.
UNED F3 • INTEC • FFORDD Y PARC • PARC MENAI • GWYNEDD LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

CHWARAEON

Y CLOD, Y PARCH A'R BRI

Pan oeddwn yn rhedeg y Clwb Ieuenctid ym Methel dros 25 mlynedd yn ôl bellach, byddai un bachgen ifanc o Benisarwaun yn dod draw bob nos Iau ar ei feic. Roedd yn hogyn heini iawn a diddordeb mewn sawl agwedd o chwaraeon. Un da i'w gael pan fyddai'n gyfnod cystadlaethau ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yn gôl-geidwad addawol iawn ac yn chwarae i un o dimau ieuenctid Llanrug. Ymhen blwyddyn neu ddwy cafodd anaf cas a lesteiriodd ei ddiddordeb yn mewn pêl-droed. Yna, yn ei arddegau hwyr symudodd o'r ardal i fyw, er fod ei fam yn dal i fyw ym Mhenisarwaun.

Yr wythnos diwethaf daeth y bachgen ifanc hwnnw yn arwr cenedlaethol. David Brailsford oedd y sbardun tu cefn i lwyddiant ysgubol tîm aml-agwedd beicio Prydain. Mae'n debyg mai'r beiciau yn rasio dan do oedd un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd i wylwyr teledu o'r Gemau Olympaidd. Yr oedd yn wefreiddiol, yn llawn tactegau ac yn esgyn ar lwyddiant.

O'r deg ras ar y trac cafodd Prydain saith medal aur, gan gynnwys torri record byd. Yn eu plith y Cymro, Geraint Thomas. Yna camp anhygoel Nicole Cook yn y ras ar y ffordd i ferched.

Yn nifer o'r adroddiadau cyfeiriwyd at ddawn David i greu uned deuluol ymysg y tîm. Gwaith David fel y Cyfarwyddwr Perfformiad oedd cael criw o hyfforddwyr, seicolegwyr a mecanics gyda'r un feddylfryd at ei gilydd. I gyrraedd y brig, canolbwyntio ar y rhai gyda gobaith o ennill medal, ac yna ymestyn dawn y goreuon. Troi potensial yn berfformiad. A dyna a wnaeth gyda Chris Hoy, Bradley Wiggins a'r gweddill. A hyn i gyd tu fewn i gyllideb bitw o'i gymharu â champau eraill.

Oherwydd ei lwyddiant mae'n siŵr y bydd rhai yn ceisio denu arbenigedd David, unai i gamp arall neu hyd yn oed i wledydd eraill. Roedd yn hysbys nad oedd ar gyflog mawr. Ymddengys mai aros gyda thîm Prydain wnaiff David, a'i lygad ar fwy o lwyddiant yng nghemau Llundain 2012.

Ar ran yr ardal, llongyfarchiadau calonog i David, un arall o'r bechgyn diymhongar yna tu ôl i'r llenni sy'n sbarduno drwy ymroddiad a phenderfyniad.

Y DYFODOL YN NHRAED YR IEUENCTID

Erbyn yr amser yma mis nesaf bydd tim pêl-droed Cymru wedi chwarae dwy gêm yn rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd. Wedi perfformiad siomedig yn erbyn Georgia, does dim syndod fod Toshack wedi troi at 10 o'r garfan dan 21 ar gyfer y garfan hŷn.

Fe es i draw i'r Cae Ras i weld Cymru yn colli o 1–0 yn erbyn eboliaid Rwmania. Dyma gêm llawn cyffro a'r Dreigiau ifanc mor anffodus i golli. Clod mawr i Brian Flynn am ei waith graenus a threfnus gyda'r criw dawnus yma. Braf oedd gweld enwau clybiau fel Spurs, Arsenal, Middlesborough a Chelsea wrth gwt y chwaraewyr yn ogystal â Chaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Rhaid i'r llafnau wneud eu marc yn y clybiau yma, neu byddwn yn ôl i'r hen ddyddiau o weld y chwaraewyr yma yn ennill eu bara menyn yn y cynghreiriau is.

Un y collwyd ei egni a'i ddawn ar y noson oedd Joe Ledley. Mae sôn y bydd yntau'n symud i feysydd brasach o fewn ychydig. Mae i fyny i Toshack a'r criw hyfforddi i elwa o'r cynhaeaf ifanc yma a chychwyn oes aur i'r bêl-droed yng Nghymru.

DECHRAU ADDAWOL

Mae hi'n fuan iawn yn y tymor i ragweld beth ddaw o dimau pêl-droed yr ardal eleni.

Mae Llanrug yn edrych ymlaen i adeiladu ar lwyddiant y llynedd a bod y tîm cyntaf o'r ardal i symud i'r haen nesaf yn y pyramid. Mae Llanberis wedi colli ambell chwaraewr addawol i glybiau eraill, a chadw eu statws gyfredol fydd eu nod.

Gyda'r hen elynion, Y Bermo, wedi esgyn, ai hwn fydd y tymor pan fydd Bethel yn llwyddo i ymuno â'r brodyr hŷn y tymor nesaf. Mae tîm Waunfawr yn ddiguro hyd yn hyn, ac yn arwain ail adran Cynghrair Arfon. Gobeithio mai hyn fydd ailgychwyn ail ddringo'r cynghreiriau iddynt.

Eto, parhau mae traddodiad y clybiau yn y cwpanau. Yn benodol yng Nghwpan Cymru, gyda Llanrug yn chwalu Llanrhaeadr ym Mochnant a Llanberis yn teithio i Kerry yng nghanolbarth Cymru – nid Iwerddon – ac ennill 2–0. Bydd Llanrug yn herio Pwllheli ar Eithin Duon yn y rownd nesaf.

YMDDIHEURIADAU

Yn ystod cyfnod y 'gwyliau' bu cryn weithgaredd yn y fro gan gynnwys Tlws yr Eco, Ras yr Wyddfa, Noson Gwobrwyo tîm Bowlio Waunfawr ac yn y blaen. Oherwydd nam technegol ar fy rhan i, ni lwyddais i gostrelu y llu darluniau ddaeth i law. Gobeithiaf eu casglu i gyd at ei gilydd ar dudalen lluniau chwaraeon arbennig y mis nesaf.

TLWS YR ECO 2008

Unwaith eto eleni cafwyd chwarae safonol iawn a chystadlu brwd. Yn ddiau, mae dylanwad hyfforddi safonol aelodau clybiau'r ardal yn dwyn ffrwyth. Diolch eto eleni i glybiau Llanrug a Bethel am lwyfanu'r gystadleuaeth, ac i'r gwirfoddolwyr a helpodd mewn unrhyw ffordd. Yn anffodus, ni ellid mynd â'r gystadleuaeth i Ddeiniolen oherwydd roedd rhaid i'r cyngor wneud gwaith cynnal a chadw ar y Bwthyn. Roedd Dewi a'i griw yn siomedig iawn ond yn sicr byddwn yn Neiniolen y flwyddyn nesaf, a braf fuasai mynd i Lanberis neu Waunfawr hefyd.

Cafwyd ymateb da i'r gystadleuaeth Bêl-rwyd. Diolch yn arbennig i Llinos Williams am ddyfarnu y gemau i oedran Bl.3/4. Yr enillwyr oedd Ysgol Llanrug, Bethel yn ail a Phenisarwaun yn drydydd.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth Bl. 5/6 ymysg saith tîm yn Neuadd Chwaraeon Ysgol Brynrefail. Roedd y safon mor uchel â'r cyfleusterau gwych. Diolch i Catrin Jones, unwaith eto eleni, am ei threfniadau trylwyr. Cyflawnodd Llanrug y dwbwl wrth guro Bethel yn y rownd derfynol.

Ni fu prinder goliau yn y gystadleuaeth pêl-droed dan 7. Llanberis a Llewod Llanrug ddaeth i'r rownd derfynol, a gêm dda oedd hi hefyd. Y Darans aeth â hi o 2–0, diolch i goliau Tomos Collins ac Aled Pritchard.

Yn y gystadleuaeth dan 9, dau brif dîm Llanrug a Bethel oedd yn ymgiprys. Y tro yma i Fethel yr aeth y tlws o 4–0, diolch i dair gôl Mathew Lloyd ac un gan Gavin John. Roedd yn arwyddocaol i Mathew fod yn seren y gêm canys hon oedd ei gêm olaf i'r clwb. Mae'r teulu yn symud i Ganada i fyw. Dymunwn yn dda iddynt.

Ym Methel y cynhaliwyd y gystadleuaeth dan 11, ac roedd gôl Dylan yn ddigon i fynd â'r tlws dros Afon Seiont yn ôl i Lanrug.

Y flwyddyn nesaf fydd y chweched blwyddyn ar hugain i mi fel trefnydd y gystadleuaeth. Er y blinder a'r poeni weithiau, ymfalchiaf o hyd fod y gystadleuaeth yma yn un gwerth chweil i'w chynnal tu fewn i'n milltir sgwâr. Mae hyn – a'r ychydig elw i'r *Eco* bob blwyddyn – yn ddigon o reswm i gario ymlaen.

Cit newydd yn Llanrug

Irfon Hughes a'i fab, Iwan, o London Garage, Cwm y Glo, yn cyflwyno cit newydd i Aled Owen, rheolwr Clwb Pêl-droed Llanrug, gyda dau o'r chwaraewyr, sef David Noel Williams (chwith) ac Eifion Williams (dde).

GWEFR Y GEMAU OLYMPAIDD

Bu'r Gemau Olympaidd yn Beijing ymysg y gorau erioed – o gyffro'r pwll nofio i'r trac seiclo i'r trac yn y Nyth. Anodd meddwl sut y gall y corff dynol ymestyn y targedau a osodwyd gan Bolt, Phelps, Hoy ac eraill.

Rhaid cydnabod bod technoleg wedi helpu hefyd yn natblygiad y gwisgoedd cystadlu. Roedd cysgod cyffuriau yno hefyd ac ambell agwedd o'r dyfarnu yn amheus. Digon i gnoi cil arno yn amlwg, ac yn sicr yn gosod her i drefnwyr gemau Llundain yn 2012. Anodd credu na fydd 'mwy o wario' na'r gyllideb wreiddiol! Mae'n anodd meddwl am y '*psychy*' Seisnig yn derbyn bod yn ail-orau rhywsut

* * *

Tybed a oedd 'na rywun o fro'r *Eco* yn Beijing, ac wedi cael eu boddi gan yr awyrgylch anhygoel. Os oedd, beth am gyfrannu ysgrif fach ac ambell lun ar gyfer yr *Eco* y mis nesaf i gofnodi'r wledd arbennig a gaed.